# Adroddiad blynyddol ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU

# 2022-2023

21 **Mawrth 2023**

**OIM9**

Office for the Internal Market

Part of the Competition and Markets Authority

## Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# Adroddiad blynyddol ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU 2022-2023

Cyflwynwyd i Senedd Cymru, y Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 33(5) Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan y deiliad hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom ni i OIM@cma.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3980-4

E02880697 03/23

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

*Tudalen*


Rhagair y Cadeirydd ... 2
Crynodeb Gweithredol ... 4
1. Diben a chyd-destun yr Adroddiad ... 7
Cyflwyniad ... 7
Swyddogaethau cyffredinol yr OIM ... 10
Ffocws yr adroddiad hwn ... 11
Gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol ... 12
Casglu tystiolaeth ... 15
2. Gweithrediad y farchnad fewnol ... 17
Cyflwyniad ... 17
Pa fasnachu sy’n digwydd ym marchnad fewnol y DU? ... 17
Profiadau o fasnach oddi mewn i’r DU ... 25
Casgliad ... 28
3. Datblygiadau rheoliadol ... 30
Cyflwyniad ... 30
Ceisiadau am gyngor/adroddiadau i’r OIM dan aa34-36 y Ddeddf ... 31
Cynlluniau dychwelyd ernes ... 33
Cynhyrchion plastig untro ... 37
Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ... 39
Bwyd a diod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr ... 42
Trapiau glud a maglau ... 43
Meysydd posibl eraill i’w nodi yn 2023-24 ... 45
Casgliad ... 47
Atodiad A: Data masnach a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ... 50

## Rhagair y Cadeirydd

Pleser oedd cael fy mhenodi'n Gadeirydd yr OIM fis Ebrill 2022, a thros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael y fraint o gynrychioli'r OIM, a sgwrsio gydag amrywiol sefydliadol er mwyn clywed eu barn a rhoi'r gair ar led ynghylch ein rôl.

Mae masnachu rhwng cenhedloedd y DU yn rhan angenrheidiol o'n heconomi, ac mae'n hollbwysig bod ein marchnad fewnol yn parhau i fod yn effeithiol. Yr OIM sydd â'r rôl bwysig o helpu i hwyluso hyn. Gwnawn hyn drwy ddarparu adroddiadau i'r llywodraethau ar effeithiau posibl rheoliadau penodol, yn ogystal â darparu adroddiadau annibynnol ar gyfundrefn y farchnad fewnol ac ar weithrediad y farchnad fewnol, sef ffocws y ddogfen hon – ein hadroddiad blynyddol cyntaf.

Cydnabyddwn pa mor bwysig yw casglu tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid i fod yn sail i'n gwaith, ac rydw i'n falch o fod wedi cyfrannu at hynny. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda gweinidogion a swyddogion o bedair llywodraeth y DU. Rwyf hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau busnes ac wedi mynychu sawl bord gron gyda busnesau, cymdeithasau masnach, academyddion, ymchwilwyr, melinau trafod ac aelodau'r proffesiwn cyfreithiol, i glywed eu barn am farchnad fewnol y DU.

Ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyfnodol cyntaf ar gyfundrefn marchnad fewnol y DU, sy'n darparu'r dadansoddiad manwl cyntaf o sut mae'r seilwaith a nodir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU a'r rheini yn y cytundebau Fframwaith Cyffredin yn cefnogi'r farchnad fewnol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein 'Map Llywio Strategaeth Ddata', sy'n nodi'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt i lenwi'r bylchau yr ydym ni wedi'u hadnabod yn nata masnach o fewn y DU, sy'n arwain at ddadansoddiad gwell o lawer yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn falch o nodi ein bod, y mis diwethaf, wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar waharddiad arfaethedig yn ymwneud â mawn i ymateb i gais i edrych ar sut all ddeddfwriaeth mawn arfaethedig effeithio ar y farchnad honno yn y DU.

Gan mai hwn yw ein hadroddiad blynyddol statudol cyntaf, mae ein dealltwriaeth o'r prif ffactorau sy'n sail i weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU yn debygol o ddatblygu gydag amser. Rydym yn croesawu adborth a mewnbwn ar yr adroddiad hwn gan randdeiliaid sydd â diddordeb.

Yn olaf, hoffwn ddiolch o galon i'r staff a'r OIM yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ehangach am eu hymdrechion a hoffwn hefyd ddiolch i bedair llywodraeth y DU am eu hymgysylltiad adeiladol ac agored, ar lefel Weinidogol a swyddogol, yn ogystal â'r busnesau, cymdeithasau masnach, arbenigwyr polisi a

chyfreithiol ac academyddion a gymerodd ran yn ein byrddau crwn a'n hymchwil ansoddol.



Murdoch MacLennan
Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol

## Crynodeb Gweithredol

1. Yr adroddiad hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) ar weithrediad y farchnad fewnol. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 ac yn datblygu ar ein 'Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU' a gyhoeddwyd mis Mawrth 2022. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad cyfnodol statudol cyntaf ar gyfundrefn marchnad fewnol y DU.

2. Ein rôl yw cynorthwyo pedair llywodraeth y DU drwy ddefnyddio arbenigedd economaidd a thechnegol arall i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Rôl gynghorol sydd gennym, nad yw'n cynnwys gwneud penderfyniadau. O ystyried ein ffocws ar effeithiau economaidd penderfyniadau rheoliadol gwahanol ar draws cenhedloedd y DU, cydnabyddwn fod y canfyddiadau a'r materion a godwyd yn ein hadroddiadau yn debygol o gynrychioli un ystyriaeth, ymhlith eraill, pan mae llywodraeth neu ddeddfwrfa yn pennu ei hoff bolisi a'i hoff ddulliau rheoliadol.

3. Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i fodloni'r gofyniad dan adran 33(5) Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (y Ddeddf) ein bod yn paratoi adroddiad dim hwyrach na 31 Mawrth 2023 (ac o leiaf unwaith bob cyfnod perthnasol o 12 mis) ar weithrediad marchnad fewnol yn y DU ac ar ddatblygiadau mewn perthynas ag effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad honno.

4. Ers i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ail-afael mewn grymoedd sylweddol, gan gynyddu annibynniaeth y llywodraethau hyn i lywio eu rheoliadau eu hunain ac felly'r posibilrwydd o wahaniaethau rheoliadol sy'n dod i'r amlwg rhwng pedair cenedl y DU ar ôl Brexit.

5. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, casglom dystiolaeth gan ystod o ffynonellau, gan gynnwys ystadegau gan y Llywodraethau Datganoledig, gan yr Economic Statistics Centre of Excellence a chan y Business Insights and Conditions Survey (BICS) a wnaethpwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cynaliasom drafodaethau bord gron gydag amrywiaeth o randdeiliaid, megis busnesau a chymdeithasau masnach, academyddion, aelodau'r gymuned polisi, ac arbenigwyr cyfreithiol.

6. Gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol gan ymgynghoriaeth annibynnol, Thinks Insights & Strategy (TIS), a thrwy hynny cawsom safbwyntiau busnesau sydd wedi'u lleoli ym mhob cenedl y DU ac sy'n masnachu ar draws y DU. Gwnaethom hefyd fonitro datblygiadau rheoliadol y DU ac adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn y DU sy'n berthnasol i

weithrediad marchnad fewnol y DU, a defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill drwy ffurflen ar y we.

7. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, clywsom gan nifer o randdeiliaid a gododd materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon (y Protocol). Dan y Ddeddf, nid yw ein cylch gwaith yn ymestyn i'r Protocol, ac felly ni allwn ymgymryd ag adolygiad o'r Protocol nac o'r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddo. At ddibenion ein swyddogaethau adrodd, mae Gogledd Iwerddon yn rhan o farchnad fewnol y DU, ac mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y Protocol pryd bynnag sy'n briodol.[1]

8. Canfuom fod y data sydd ar gael ar fasnach oddi mewn i'r DU yn brin, a bod oedi hir cyn bod ffigyrau ar gael ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a dim data o gwbl ar gyfer Lloegr. Mae anghysondebau yn y ffordd y caiff data ei gasglu a'i gynhyrchu a rwystrodd y gallu i'w cymharu. Wedi dweud hynny, amlygwyd rhai arwyddion clir. Canfuom fod masnach oddi mewn i'r DU yn hynod bwysig i genhedloedd y DU, yn cynrychioli oddeutu 45% i 65% o werthiannau a phryniannau allanol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er ei bod yn llai na hynny yn Lloegr o ganlyniad i faint perthynol ei economi.

9. O ystyried y cyfyngiadau yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym wedi cyhoeddi 'Map Llywio Strategaeth Ddata' ochr yn ochr â'r adroddiad hwn sy'n nodi mentrau i wella masnach oddi mewn i'r DU, y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Llywodraethau Datganoledig ac eraill yn ymgymryd â nhw. Nod y prosiectau hyn yw gwella'n sylweddol yr hyn sy'n hysbys ac y gellir ei fonitro mewn perthynas â sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio, drwy wella'r data sydd ar gael.

10. Canfuom o'r BICS nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n masnachu oddi mewn i'r DU yn cael heriau wrth werthu i genhedloedd eraill y DU, a bod llai nag un ym mhob deg o gwmnïau a gymerodd ran mewn masnachu wedi nodi heriau oherwydd gwahaniaethau mewn rheolau a rheoliadau. Drwy ein hymchwil ansoddol, canfuom mai prin oedd y busnesau a gafodd heriau wrth fasnachu gyda chenhedloedd eraill y DU.

11. Yn ogystal, ar y cyfan nid oedd busnesau yn ymwybodol o'r potensial am wahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd y DU. Pan godwyd y potensial am newidiadau o'r fath gyda'r rheini a gymerodd ran yn ein hymchwil ansoddol ac yn ein trafodaethau born gron, gwnaethant ystyried y gallai gyflwyno heriau ac y ffefrir cysondeb. Er gwaethaf hyn, ar y cyfan dywedodd y

[1] Paratowyd yr adroddiad hwn ychydig cyn cyhoeddi'r Fframwaith Windsor. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraethau i ddeall unrhyw oblygiadau Fframwaith Windsor ar gyfer ein hadroddiadau.

busnesau y clywsom ganddynt y byddant yn gallu addasu i wahaniaethau rheoliadol, er bod ein tystiolaeth yn awgrymu y gall rhai cwmnïau llai ei chael hi'n fwy heriol addasu oherwydd llai o adnoddau a diffyg profiad o addasu i reoliadau.

12. Mae ein hadroddiad yn ymdrin â nifer o feysydd polisi a all effeithio o bosibl ar y farchnad fewnol, gan gynnwys: y gwaharddiad arfaethedig ar werthu mawn garddwriaethol; datblygu Cynlluniau Dychwelyd Ernes; gwaharddiadau'r llywodraeth ar gynnyrch plastig un defnydd; newidiadau arfaethedig i dechnolegau genetig; bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr; a thrapiau glud a maglau. Gan edrych tua'r dyfodol, rydym hefyd yn adnabod rhai meysydd posibl i'w nodi, yn cynnwys effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2022.

13. Wrth adolygu'r datblygiadau rheoliadol hyn, rydym wedi adnabod themâu cyffredin mewn perthynas â gwahanol reoliadau rhwng y cenhedloedd yr ydym yn gobeithio a fydd yn cynorthwyo llunwyr polisi wrth ystyried effeithiau posibl newid rheoliadol yn y dyfodol ar farchnad fewnol y DU.

14. Yn ansyfrdanol efallai, pan mae busnesau yn mynegi pryder am ddatblygiad rheoliadol, yn aml mae hyn oherwydd eu bod yn disgwyl rhagor o gostau ynghlwm â chydymffurfio neu oherwydd eu bod yn disgwyl y bydd datblygu yn rhoi rhai busnesau dan anfantais mewn cymhariaeth ag eraill. Clywsom gan fusnesau a oedd yn pryderu y gellir cyflwyno nodau polisi cyffelyb ar draws y cenhedloedd ar gyflymder gwahanol a/neu ar ffurfiau gwahanol. Canfuom hefyd ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf (gan gynnwys Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad) a chanfu peth ansicrwydd mewn perthynas ag effeithiau posibl y Ddeddf ar reoliadau penodol.

15. Clywsom hefyd gan lywodraethau, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector y gallai trafodaeth ryng-llywodraethol yn gynnar yn y broses datblygu polisi (er enghraifft, drwy Fframwaith Cyffredin perthnasol) helpu i alluogi dull cydlynol ar draws cenhedloedd a/neu sicrhau bod gwahaniaethau rhwng dulliau gweithredu'r cenhedloedd yn cael eu rheoli'n dda.

16. Byddwn yn adrodd ar effaith datblygiadau rheoliadol ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU mewn adroddiadau blynyddol sydd i ddod.

# 1. Diben a chyd-destun yr Adroddiad

## Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd Swyddfa’r Farchnad Fewnol (OIM) mis Medi 2021 i gynnig cyngor annibynnol, monitro a rhoi adroddiadau i bedair llywodraeth y DU i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

1.2 Yr adroddiad hwn yw’r adroddiad statudol cyntaf sy’n ymdrin â gweithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU gan daro golwg ar ei heffeithiolrwydd. Paratowyd yr adroddiad i fodloni ein gofynion adrodd dan a.33(5) Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (y Ddeddf).

1.3 Ym Mhennod 1, ceir cefndir yr OIM a’r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddi. Mae’n ymdrin â’n swyddogaethau cyffredinol ac yn disgrifio diben statudol yr adroddiad hwn. Mae’n cynnwys trafodaeth ynghylch yr hyn yr ydym yn ei olygu gan weithrediad effeithiol y farchnad fewnol ac yn cyflwyno crynodeb o’n gwaith yn casglu tystiolaeth.

1.4 Ym Mhennod 2, ceir asesiad o’r data economaidd sydd ar gael ar lifau masnachu rhwng cenhedloedd y DU, yn ogystal â dadansoddiad o brofiadau a safbwyntiau busnesau mewn cysylltiad â masnachu ar draws y DU, gan gynnwys trafodaeth o’u gwybodaeth gyfredol a’u dealltwriaeth o’r farchnad fewnol ac Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad.

1.5 Mae Pennod 3 yn trafod rhai datblygiadau cyfredol mewn rheoliadau a rhai datblygiadau’r dyfodol mewn rheoliadau a all effeithio ar farchnad fewnol y DU. Mae’n crynhoi ein canfyddiadau ar y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddio mawn garddwriaethol. Yna, mae’n cynnig cefndir cryno a chrynodeb o sylwadau gan randdeiliaid ar gyfer gwahanol ddatblygiadau rheoliadol pwysig yr ydym wedi’u harsylwi yn y 12 mis diwethaf ac yn adnabod meysydd posibl i’w nodi ar gyfer y dyfodol. Mae’n dod i gasgliad drwy bennu nifer o ganfyddiadau sy’n amlygu themâu cyffredin ac archwilio rhai o oblygiadau ymarferol gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu rhwng cenhedloedd.

### *Cefndir y Ddeddf*

1.6 Ers i’r Deyrnas Unedig ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ail-afael mewn grymoedd sylweddol, gan gynyddu annibynniaeth y llywodraethau hyn i lywio eu rheoliadau eu hunain a’r

posibilrwydd o wahaniaethau rheoliadol sy'n dod i'r amlwg rhwng pedair cenedl y DU ar ôl Brexit.[2]

1.7 O ystyried y potensial hwn am fwy o wahaniaethau mewn rheoliadau rhwng cenhedloedd y DU, cyflwynwyd y Ddeddf gyda'r nod o sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn parhau i weithredu mor effeithiol â phosibl.[3]

1.8 Wrth baratoi'r adroddiad hwn, clywsom gan nifer o randdeiliaid a gododd materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon (y Protocol). Dan y Ddeddf, nid yw ein cylch gwaith yn ymestyn i'r Protocol, ac felly ni allwn ymgymryd ag adolygiad o'r Protocol nac o'r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddo.[4] At ddibenion ein swyddogaethau adrodd, mae Gogledd Iwerddon yn rhan o farchnad fewnol y DU,[5] ac mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y Protocol pryd bynnag sy'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad o lifau masnachu rhwng y cenhedloedd, yn cynnwys Gogledd Iwerddon (pennod 2), yn ogystal â nodi pryd mae'n ofynnol i reoliadau yng Ngogledd Iwerddon lynu wrth yr UE o ganlyniad i'r Protocol (pennod 3).

### *Rhannau 1 i 3 y Ddeddf*

1.9 Mae Rhan 1 y Ddeddf yn sefydlu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â chydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu o ran nwyddau. Ystyr yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yw os yw nwyddau yn bodloni'r gofynion rheoliadol[6] ar gyfer eu gwerthu yn un rhan o'r DU[7], gellir gwerthu'r nwyddau hynny yn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni

---

[2] Mae cyfraith yr UE yn nodi fframwaith ar gyfer llywodraethu marchnad fewnol yr UE. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys safoni rhai rheolau penodol ar draws Aelodau-wladwriaethau'r UE, gosod safonau gofynnol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a, pryd bynnag sy'n angenrheidiol, fframwaith sy'n gofyn cydnabyddiaeth gan Aelod-wladwriaeth o nwyddau neu wasanaethau sy'n dod o Aelodau-wladwriaethau eraill yr UE eu bod yn bodloni safonau cenedlaethol. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, ar y cyfan, nid yw cyfyngiadau cyfraith yr UE yn berthnasol mwyach i Lywodraeth y DU neu'r Llywodraethau Datganoledig, ac eithrio goblygiadau sy'n codi o Brotocol Gogledd Iwerddon. Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, roedd cyfraith yr UE yn cyfyngu i ba raddau y gallai pedair llywodraeth y DU olrhain polisïau gwahanol.

[3] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, tudalen 5: 'The purpose of the United Kingdom Internal Market Act is to preserve the United Kingdom's (UK's) internal market as powers previously exercised at European Union (EU) level return to the UK, providing continued certainty for people and businesses that they can work and trade freely across the whole of the UK.'.

[4] Gweler adran 30(8) a (9) y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn ychydig cyn cyhoeddi'r Fframwaith Windsor. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraethau i ddeall unrhyw oblygiadau Fframwaith Windsor ar gyfer ein hadroddiadau.

[5] Gweler adrannau 33(1) a 58 y Ddeddf.

[6] Wedi'u cyfeirio atynt fel 'relevant requirements' yn y Ddeddf, ewch i adran 3(2) y Ddeddf sy'n diffinio 'gofynion perthnasol' at ddibenion yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol fel mae'n ymwneud â nwyddau.

[7] Cymru, yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon.

unrhyw ofynion gwahanol sy'n berthnasol yno.[8] Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn golygu y gwaherddir gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn seiliedig ar wahanol driniaethau ar nwyddau lleol a nwyddau yn dod i mewn.[9]

1.10 Mae Rhan 2 y Ddeddf yn sefydlu Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â chydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer gwasanaethau. Ar gyfer darparwyr gwasanaethau, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol 'gofynion awdurdodi'.[10] Mae hyn yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth, sydd wedi'i awdurdodi gan reoleiddiwr, ddarparu gwasanaeth penodol yn un rhan o'r DU, i ddibynnu ar yr awdurdodiad hwnnw er mwyn darparu'r gwasanaethau dan sylw yn rhannau eraill y DU.[11] Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer darparwyr gwasanaeth yn golygu pan mae rhai mathau o reoliadau a orfodir yn un rhan o'r DU yn gwahaniaethu yn erbyn darparwyr gwasanaeth yn rhan arall y DU, bydd y rhannau anffafriol hyn o'r rheoliadau yn cael eu diystyru ac ni chânt unrhyw effaith.[12]

1.11 Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cyflwyno system ar gyfer adnabod cymwysterau proffesiynol ledled y DU. Mae'r Ddeddf yn nodi'r 'egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig' sy'n nodi bod preswyliwr y DU sydd wedi cymhwyso yn un rhan o'r DU yn cymhwyso'n awtomatig yn y proffesiwn dan sylw yn rhan arall y DU.[13] Mae hi hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon, dan rai amgylchiadau, i un genedl reoleiddio mewn ffordd sy'n rhoi triniaeth lai ffafriol i breswylwyr cymwys y DU o genhedloedd eraill y DU na'r driniaeth a roddir i'w phreswylwyr cymwys ei hun.[14]

### *Fframweithiau Cyffredin*

1.12 Rhan allweddol arall o'r trefniadau mewn perthynas â gweithrediad marchnad fewnol y DU yw'r cwmpas ar gyfer Fframweithiau Cyffredin. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'Cytundeb Fframwaith Cyffredin' fel consensws rhwng Gweinidog y Goron ac un neu fwy o'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch sut mae

---

[8] Noder, er y gellir dibynnu ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol gan fusnesau i gydymffurfio'n unig â'r gofynion perthnasol yng nghenedl y DU lle caiff y nwyddau eu 'cynhyrchu' neu eu 'mewnforio iddi', gall masnachwyr gydymffurfio â chyfraith leol. Mewn geiriau eraill, nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn atal masnachwyr rhag cydymffurfio â'r gofynion perthnasol 'lleol' lle caiff y nwyddau eu gwerthu (gweler adran 14 y Ddeddf). Ymhellach i hynny, dylid nodi y bydd cynhyrchwyr lleol yn rhwym i ofynion perthnasol lleol.

[9] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, tudalen 7:

[10] Gweler adran 17(3) y Ddeddf am ddiffiniad o 'ofyniad am awdurdodiad'.

[11] Gweler adran 19(1) y Ddeddf.

[12] Gweler adrannau 20 a 21 ac adran 17(4) y Ddeddf sy'n diffinio 'gofyniad rheoliadol' ar gyfer yr egwyddor peidio â gwahaniaethu fel mae'n berthnasol i wasanaethau.

[13] Gweler adran 24 y Ddeddf.

[14] Gweler adran 28 y Ddeddf.

materion datganoledig neu drosglwyddedig a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfreithiau'r UE i gael eu rheoleiddio ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Mae cytundebau Fframwaith Cyffredin fel arfer yn nodi strwythurau gwneud penderfyniadau a bodloni rhyng-llywodraethol, egwyddorion cytunedig ar gyfer ffyrdd o weithio a phroses datrys anghydfodau.

1.13 Ers 2017, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Fframweithiau Cyffredin yn rhai ardaloedd a lywodraethwyd yn flaenorol gan Gyfraith yr UE. Mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau Fframwaith Cyffredin hyn wedi'u drafftio a'u cyhoeddi ac yn gweithredu dros dro. Mae un wedi'i gadarnhau yn dilyn archwiliad gan y senedd yn y pedair deddfwrfa.

1.14 Yn yr adroddiad hwn, ystyriwn y Fframweithiau Cyffredin pryd bynnag maent yn berthnasol i bennod 3 isod; ceir disgrifiad a dadansoddiad manylach o'r Fframweithiau Cyffredin ym mhennod 3 ein hadroddiad cyfnodol ar gyfundrefn marchnad fewnol y DU.

## Swyddogaethau cyffredinol yr OIM

1.15 Ein hamcan statudol yw cefnogi, drwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall, gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU gan gyfeirio'n benodol at ddibenion Rhannau 1, 2 a 3 y Ddeddf.[15]

1.16 Mae ein prif swyddogaethau yn berthnasol i ddau brif gategori:

- Darparu adroddiadau (neu gyngor fel sy'n briodol) ar ddarpariaethau rheoliadol penodol ar gais Awdurdod Cenedlaethol Perthnasol (RNA).[16, 17]
- Monitro ac adrodd ar weithrediad marchnad fewnol y DU – er enghraifft, adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn[18] ac adroddiadau blynyddol a statudol cyfnodol.[19]

---

[15] Gweler adran 31(2) y Ddeddf.

[16] Mae Adran 45(6) y Ddeddf yn diffinio 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' at ddibenion Rhan 4 fel 'unrhyw un o'r canlynol – (a) yr Ysgrifennydd Gwladol; (b) Gweinidogion yr Alban; (c) Gweinidogion Cymru; (d) ac adran Gogledd Iwerddon'.
Dan adran 34 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM gynghori neu ddarparu adroddiad ar ddarpariaeth reoliadol arfaethedig; dan adran 35 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM ddarparu adroddiad ar ôl pasio neu wneud darpariaeth reoliadol; a dan adran 36 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM ddarparu adroddiad ar ddarpariaeth reoliadol y mae'n ystyried ei bod wed cael effeithiau niweidiol ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

[17] Nid yw'n ofynnol i'r OIM adrodd neu gynghori ar ddarpariaethau rheoliadol sy'n cynnwys unrhyw beth sy'n angenrheidiol i weithredu Protocol Gogledd Iwerddon.

[18] Gweler adran 33(1) y Ddeddf.

[19] Gweler adrannau 33(5) a 33(6) y Ddeddf

1.17 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, ein dull yw sicrhau ein bod yn dangos tryloywder, annibynniaeth a manwl gywirdeb dadansoddol. Drwy'r Ddeddf, mae'n ofynnol i ni ymddwyn yn deg mewn perthynas â'r pedwar RNA.[20]

1.18 Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch ein rôl a'n pwerau yn ein Canllawiau Gweithredol a gyhoeddwyd fis Medi 2021 (OIM1).[21]

## Ffocws yr adroddiad hwn

1.19 Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'n swyddogaethau monitro ac adrodd. Yn fwy penodol, mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i ryddhau'r gofyniad i baratoi adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth 2023 ar:

- weithrediad y farchnad fewnol yn y DU, a
- datblygiadau o ran effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad honno.[22]

1.20 Mae'r adroddiad yn datblygu ein hadroddiad cyhoeddedig cyntaf, 'Trosolwg ar Farchnad Fewnol y DU' a gyhoeddwyd fis Mawrth 2022[23], a roddodd adolygiad o ddata masnachu oddi mewn i'r DU, cyflwyno canfyddiadau arolwg busnes ac adnabod rhai meysydd lle mae amrywiaethau rheoliadol yn fwyaf tebygol o godi ar draws cenhedloedd y DU.

### *Rôl yr OIM*

1.21 Ein nod yw cynorthwyo pedair llywodraeth y DU drwy ddefnyddio arbenigedd economaidd a thechnegol arall i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Rôl gynghorol sydd gennym, nad yw'n cynnwys gwneud penderfyniadau. O ystyried ein ffocws ar effeithiau economaidd penderfyniadau rheoliadol gwahanol ar draws cenhedloedd y DU, cydnabyddwn fod y canfyddiadau a'r materion a godwyd yn ein hadroddiadau yn debygol o gynrychioli un ystyriaeth, ymhlith eraill, pan mae llywodraeth neu ddeddfwrfa yn pennu ei hoff bolisi a'i hoff ddulliau rheoliadol.

1.22 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol. Nid yw ein rôl yn ymestyn i ystyried gwahaniaethau eraill a all

---

[20] Gweler adran 31(4) y Ddeddf.
[21] Canllawiau ar weithredu swyddogaethau Marchnad Fewnol y DU y CMA.
[22] Adran 33(5) y Ddeddf.
[23] Trosolwg o'r Adroddiad ar Farchnad Fewnol y DU. Cyhoeddwyd adroddiad y Trosolwg fel allbwn yn ôl disgresiwn dan adran 33(1) y Ddeddf. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol hwn a'r adroddiad cyfnodol i fodloni dyletswyddau statudol.

godi rhwng cenhedloedd y DU (er enghraifft, mewn perthynas â materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus), na materion yn ymwneud â pholisi economaidd ehangach. O ran ystyried ein hadroddiadau, mae'n bwysig cydnabod y cyd-destun polisi y mae llywodraethau yn gweithredu ynddo. Gall llywodraethau wneud ymyrraethau polisi am nifer o resymau a all, yn ei dro, arwain at wahaniaethau yn rheoliadau yn dod i'r amlwg rhwng cenhedloedd y DU. Gall y gweithredoedd hyn gynnwys ymyrraethau i fynd i'r afael â mater penodol yn ymwneud ag amgylchiadau'r genedl honno (i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth leol, er enghraifft), neu weithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol ehangach (i fynd i'r afael â blaenoriaethau amgylcheddol, er enghraifft).

1.23 Gall gwahaniaethau mewn rheoliadau hefyd arwain at arloesedd gwerthfawr mewn llunio polisïau – fel y nodwyd yn Fframwaith Cyffredin Dros Dro Adnoddau a Gwastraff, mae'r gallu i addasu yn cael ei gadw'n unol â'r trefniadau datganoledig, gan gydnabod y gall addasu gyflwyno buddion allweddol, megis hyrwyddo safonau uwch a chynhyrchu arloesedd a safonau gwell, a chymryd i ystyriaeth ei effaith ar weithrediad marchnad fewnol y DU.[24] Er enghraifft, Llywodraeth yr Alban oedd y cyntaf i gyflwyno gwaharddiad ysmygu yn y DU, a Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf i gyflwyno tâl ar fagiau plastig untro. Rhoddodd y polisïau llwyddiannus hyn gyfleoedd i genhedloedd eraill y DU weld y polisïau ar waith cyn gwneud eu penderfyniadau eu hunain i weithredu deddfwriaeth gyffelyb.[25]

1.24 Yn yr un modd â'n holl waith arall, mae angen ystyried ein ffocws ar ffactorau economaidd yng nghyd-destun penderfyniadau polisi cyhoeddus llywodraethau, gan gynnwys y modd mae llywodraethau yn ystyried costau (nad oes modd eu mesur yn aml) a buddion dewisiadau polisi.

## Gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol

1.25 Yn yr adran hon, dyma ni'n mynd ati i nodi rhai o'r ffactorau economaidd sy'n berthnasol i'n rôl i adrodd ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

1.26 Mae ein canllawiau gweithredol, a gyhoeddwyd pan gawsom ein lansio, yn nodi'r angen i ni gydnabod 'y cydbwysedd sydd i'w daro rhwng masnach esmwyth ac annibynniaeth polisi datganoledig.'[26] Mae hefyd yn nodi bod 'gweithrediad effeithiol' marchnad fewnol y DU yn cynnwys y canlynol:

---

[24] Defra Resources and Waste Common Framework (publishing.service.gov.uk), Rhagfyr 2022

[25] Llywodraeth Cymru, Adolygiad ôl-weithredu codi tâl ar fagiau siopa untro yng Nghymru: adroddiad ar ganfyddiadau newydd

[26] Canllawiau ar weithredu swyddogaethau Marchnad Fewnol y DU y CMA - GOV.UK (www.gov.uk), tudalen 16.

- ‘Rhwystrau lleiaf posibl i fasnach, buddsoddiad a symud llafur rhwng pob rhan o'r DU (yn amodol ar waharddiadau perthnasol yn y Ddeddf).
- Sicrhau nad yw busnesau neu ddefnyddwyr mewn un rhan o’r DU yn cael eu ffafrio dros eraill;
- Rheolaeth effeithiol o wahaniaeth rheoliadol (yn cynnwys y defnydd o gytundebau fframwaith cyffredin).’

1.27 Mae’r ystyriaethau hyn yn cynnig man cychwyn defnyddiol wrth adnabod nodweddion marchnad fewnol y DU sy’n gweithredu’n effeithiol.

1.28 Mae’r Ddeddf yn darparu rhestr heb fod yn gyflawn y gellir ei hystyried gennym ni wrth fonitro ac adrodd ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Nodir yn Adran 33(8) y Ddeddf, cyn belled ag y mae adroddiad dan ... [adran 33] yn gysylltiedig â gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y Deyrnas Unedig, gall yr adroddiad hwn ystyried (ymhlith pethau eraill) –

*(a)* datblygiadau yng ngweithrediad y farchnad fewnol, er enghraifft mewn perthynas â –

(i) chystadleuaeth

(ii) mynediad at nwyddau neu wasanaethau,

(iii) lefel y masnachu (neu fasnachu mewn unrhyw gyfeiriad) sydd rhwng cyfranogwyr yng ngwahanol rannau o’r Deyrnas Unedig, a

*(b)* goblygiadau ymarferol dulliau gwahanol yn y darpariaethau rheoliadol [...] sy’n berthnasol i wahanol rannau o’r Deyrnas Unedig.’

1.29 Gellir crynhoi perthnasedd posibl y ffactorau a restrwyd fel ‘datblygiadau yng ngweithrediad y farchnad fewnol’ fel a ganlyn:[27]

- **Cystadleuaeth**: Lle all busnesau yn y DU fasnachu ar draws cenhedloedd y DU, mae hyn yn debygol o arwain at rai busnesau ym mhob cenedl yn cystadlu gyda’r rheini o genhedloedd eraill. Bydd hyn yn cynnyddu cystadleuaeth sy’n debygol o arwain at ganlyniadau gwell, megis prisiau is neu gynhyrchion a gwasanaethau gwell, ar gyfer defnyddwyr.
- **Mynediad at nwyddau neu wasanaethau**: Yn yr un modd, gall masnachu ar draws cenhedloedd y DU arwain at brynwyr yn cael mwy o ddewis o

[27] Noder bod y drefn yr eir i’r afael â’r ffactorau hyn yn dilyn y drefn yn y Ddeddf, ac felly nid yw o reidrwydd yn dynodi eu perthnasedd na’u pwysigrwydd mewn dadansoddiad penodol.

eiddo a gwasanaethau drwy wneud cynhyrchion neu frandiau nad ydynt yn cael eu cynhyrchu yn eu cenedl 'frodorol' ar gael iddynt.

- **Lefel masnachu**: Gall tystiolaeth o lefelau uchel o fasnachu ar draws cenhedloedd y DU awgrymu bod modd trechu rhwystrau rhag masnachu; a gall cynnydd yn y masnachu ddynodi y gallai defnyddwyr fod yn elwa ar gystadleuaeth well a gwell mynediad at nwyddau a gwasanaethau.

- **Dulliau gweithredu gwahanol**: Mae goblygiadau ymarferol gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu sydd wedi'u hymgorffori mewn darpariaethau rheoliadol yn bwysig gan y gall y manylion o sut mae rheoliadau yn gweithio gael effaith sylweddol ar gwmnïau a marchnadoedd unigol.

1.30 Mae ffyrdd eraill y gall masnachu oddi mewn y DU wella effeithiolrwydd, yn ogystal â'r ysgogiad yn sgil mwy o gystadleuaeth. Gall marchnad gyffredin fwy o faint alluogi busnesau i elwa ar economïau mawr. Gall masnachu hefyd alluogi pob cenedl i ganolbwyntio ar y nwyddau a'r gwasanaethau sydd fwyaf effeithiol am gynhyrchu, gan arwain at allbwn uwch o'r un adnodd ar gyfer y DU ar y cyfan. Gall y buddion effeithiolrwydd hyn arwain at lefelau uwch o dwf a chynhyrchedd.

1.31 Mae'r dangosyddion a'r ffactorau yr ydym yn edrych arnynt yn debygol o amrywio yn dibynnu ar y mater penodol yr ydym yn ei ddadansoddi – er enghraifft, mewn perthynas â chais am adroddiad dan a34-36 y Ddeddf, yn dibynnu ar y ddarpariaeth reoliadol dan ystyriaeth, efallai ein bod yn canolbwyntio'n fwy ar effeithiau ar gystadleuaeth (er enghraifft, rhwng busnesau) yn hytrach na ffactorau eraill (er enghraifft, data masnachu oddi mewn y DU) i roi'r cyngor mwyaf effeithiol i lywodraethau.

1.32 Cydnabyddwn fod 'marchnad fewnol y DU', yn y bôn, wedi'i gwneud o ryngweithiadau rhwng amrywiaeth o brynwyr a gwerthwyr ar draws nifer o farchnadoedd, bob un gyda'i nodweddion ei hun. Er y gall mesurau fel lefelau masnachu, twf Cynnyrch Domestig Gros neu gynhyrchedd roi peth syniad o effeithiolrwydd y farchnad fewnol yn gyffredinol neu mewn perthynas â sectorau eang, ar hyn o bryd nid oes data ar gael fel arfer i asesu effeithiolrwydd marchnadoedd unigol, naill ai mewn sectorau neu ranbarthau penodol.

1.33 Yn yr adroddiad blynyddol cyntaf, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddata am lefelau masnachu ar y lefel genedlaethol yn ogystal â dadansoddiad o'r gwahaniaethau mewn dull rheoliadol i adrodd ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol.

1.34 Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn bwriadu defnyddio data ar lefelau masnachu oddi mewn i'r DU fel prif ddangosydd wrth asesu gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU, ar lefel facro. Mae Map Llywio Strategaeth Ddata yr OIM, yr ydym yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn nodi ein mentrau cyfredol i wella data masnach oddi mewn i'r DU sy'n cael eu gwneud gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Llywodraethau Datganoledig ac eraill. Nod y prosiectau hyn yw datrys rhai o'r cyfyngiadau yn y data sydd ar gael, gan gynnwys anhawster cymharu'r ystadegau ar gyfer pob cenedl yn y DU oherwydd gwahaniaethau methodolegol. Mae'r Map Llywio yn ffurfio rhan o Strategaeth Ddata yr OIM sy'n ceisio, drwy ymgysylltu â phartneriaid a chydweithio gyda nhw, cyflawni gwelliant sylweddol yn yr hyn sy'n hysbys ac y gellir ei fonitro o ran sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio. Er bod masnach oddi mewn y DU wedi bod yn brif ffocws y Strategaeth Ddata hyd yn hyn, dros amser byddwn yn edrych ar ei hymestyn i ymdrin â dangosyddion perthnasol eraill.

## Casglu tystiolaeth

1.35 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ystadegau gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA)[28], yn ogystal â mentrau ymchwil ar werth pryniannau (mewnforion) a gwerthiannau (allforion) masnach oddi mewn i'r DU i genhedloedd eraill y DU. Gwnaethom dynnu ar ddata o'r Economic Statistics Centre of Excellence yn ogystal â chan y Business Insights and Conditions Survey (BICS) a wnaethpwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ceir rhagor o fanylion ynghylch y data masnachu yr ydym wedi'i ddefnyddio yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

1.36 Gwnaethom hefyd gomisiynu ymchwil ansoddol a wnaethpwyd gan ymgynghoriaeth annibynnol, Thinks Insights & Strategy (TIS). Roedd yr ymchwil hwn yn casglu safbwyntiau gan fusnesau wedi'u lleoli ym mhob cenedl y DU, mewn gwahanol sectorau, ac o feintiau amrywiol sy'n masnachu ar draws ffiniau mewnol y DU. Roedd yr ymchwil yn mynd i'r afael â phwysigrwydd masnach oddi mewn i'r DU i'w busnes, eu profiadau o addasu i wahaniaeth mewn rheoliadau, a sut allant ymateb i enghreifftiau damcaniaethol ohono a mesur eu hymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Cyhoeddir canfyddiadau'r ymchwil dan sylw ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.[29]

---

[28] Nid yw data cymharol ar ffigyrau ar gyfer Lloegr ar gael.

[29] Ar adeg comisiynu'r adroddiad, roedd TIS yn gweithredu fel BritainThinks.

1.37 Yn ogystal, casglom wybodaeth drwy bedair trafodaeth bord gron gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Ffocws y trafodaethau gyda busnesau a chymdeithasau masnach oedd adnabod sectorau sy'n gweld, neu'n debygol o weld, amrywiaeth o ran rheoliadau a goblygiadau hyn ar fusnesau. Yn ein trafodaethau bord gron gydag academyddion, aelodau'r gymuned polisi ac arbenigwyr cyfreithiol, roedd mwy o ffocws ar y MAPs a'r Fframweithiau Cyffredin a'u goblygiadau.

1.38 Rydym wedi adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus mewn perthynas â datblygiadau rheoliadol a all effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol. Pryd bynnag yr oedd yn berthnasol, rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill drwy ffurflen we yr OIM[30] ar sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio. Yn ogystal, cynaliasom adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennau ac ymchwil cyhoeddedig.

1.39 Gwnaethom hefyd ymgysylltu â'r llywodraethau ar amrywiol faterion yn ymwneud â'r farchnad fewnol. Rydym yn ddiolchgar am fewnbwn y llywodraethau a'r holl randdeiliaid yr ydym wedi ymgysylltu â nhw wrth baratoi'r adroddiad hwn.

[30] Adrodd problem gyda Marchnad Fewnol y DU.

# 2. Gweithrediad y farchnad fewnol[31]

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth ar weithrediad y farchnad fewnol. Fel y trafodwyd ym mhennod 1, mae amrywiaeth o ffactorau y gellir eu hystyried wrth feddwl am weithrediad effeithiol y farchnad fewnol, ond fel y nodwyd ym mharagraff 1.33 uchod, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lefelau masnachu. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn parhau i fod yn ddangosydd pwysig, er y gallwn ymestyn ein Strategaeth Ddata i ystyried dangosyddion eraill yn y dyfodol.

2.2 Mae'r bennod hon yn tynnu ar nifer o ffynonellau, fel yr amlinellwyd ym mhennod 1. Nid yw nifer o'r ffynonellau hyn wedi cyhoeddi datganiadau wedi'u diweddaru ers ein hadroddiad Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU;[32] pryd bynnag mae hyn yn berthnasol, rydym wedi cynnwys deunydd o'r adroddiad Trosolwg fel bod yr adroddiad hwn yn ddogfen annibynnol.

2.3 Yn gyntaf, mae'r bennod hon yn dadansoddi'r masnachu sy'n digwydd yn y DU, o ran y lefelau masnachu a phwy sy'n masnachu rhwng cenhedloedd y DU. Er bod y data sydd ar gael ar fasnachu oddi mewn i'r DU yn brin, mae'r dadansoddiad hwn yn taflu peth goleuni ar y gwahaniaethau mewn patrymau masnachu rhwng cenhedloedd y DU, a rhwng busnesau o bob maint ac yng ngwahanol sectorau. Yna, mae'r bennod hon yn trafod profiadau busnesau o fasnach oddi mewn i'r DU, gan dynnu ar yr ymchwil ansoddol sydd wedi'i gomisiynu gennym ni, a'r wybodaeth a gasglwyd yn ein trafodaethau bord gron.

## Pa fasnachu sy'n digwydd ym marchnad fewnol y DU?

2.4 Mae'r adran hon yn amlinellu gwybodaeth yr ydym wedi'i hadolygu ynghylch masnach ar draws marchnad fewnol y DU. Mae data ar fasnach oddi mewn i'r DU yn brin, gyda dim ond tair o'r pedair cenedl (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn cyhoeddi ystadegau pwrpasol ar fasnach oddi mewn i'r DU sy'n casglu gwybodaeth ynghylch gwerth pryniannau (mewnforion) a gwerthiannau

---

[31] Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ystadegol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd dan Hawlfraint y Goron. Nid yw'r defnydd o ddata ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu hardystio mewn perthynas â dehongli neu ddadansoddi data ystadegol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfuniadau data ymchwil efallai nad ydynt yn atgynhyrchu yn union cyfanredau'r Ystadegau Gwladol.
[32] Trosolwg o farchnad fewnol y DU.

(allforion) i genhedloedd eraill y DU. Wedi dweud hynny, mae oedi cyn cyhoeddi'r cyfuniadau data yn amrywio, yn yr un modd â'u methodolegau perthnasol ar gyfer casglu a chynhyrchu data, sy'n amharu ar gymharedd ac amcangyfrifon o gyfanswm y fasnach oddi mewn i'r DU. Ceir eglurhad ychwanegol o'r gwahaniaethau yn y dulliau a gymerir yng nghenhedloedd gwahanol yn Atodiad A. Yn ogystal, mae mentrau ymchwil wedi ceisio amcangyfrif lefelau'r llifau masnachu oddi mewn i'r DU, ac mae cwestiynau ynghylch y gyfran a mathau o fusnesau sy'n masnachu yn y DU wedi'u cynnwys yn y Business Insights and Conditions (BICS), arolwg busnes a wneir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol bob pythefnos. Gan ddefnyddio cyfuniad o'r ffynonellau data hyn, mae'r adran hon yn archwilio'r lefel o fasnachu oddi mewn i'r DU ac yna'n dadansoddi pwy sy'n masnachu oddi mewn i'r DU.


### *Maint y fasnach oddi mewn i'r DU*

2.5 Cafodd yr amcangyfrif mwyaf diweddar o fasnach oddi mewn i'r DU, sy'n cynnwys ffigyrau ar gyfer Lloegr, ei gyhoeddi gan yr Economic Statistics Centre of Excellence (ESCoE) yn 2021, yn seiliedig ar fasnach yn 2015 (gweler Ffigwr 1). Mae ESCoE yn amcangyfrif bod gwerthiannau (allforion) oddi mewn i'r DU yn 2015 werth cyfanswm o £190bn. Er cyd-destun, byddai hyn yn cynrychioli dros chwarter o holl allforion y DU (oddi mewn i'r DU a'r tu hwnt i'r DU)[33] ac oddeutu 10% o gyfanswm y cynnyrch domestig gros.[34] Dangosir fod dros 85% o werthiannau oddi mewn i'r DU o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwneud i Loegr.

[33] Mae ffigyrau cymaradwy ar gyfer allforion rhyngwladol y DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2015 yn dynodi bod y DU wedi gwerthu £512bn o nwyddau a gwasanaethau yn rhyngwladol sy'n awgrymu bod allforion oddi mewn i'r DU yn cynrychioli oddeutu 27% o bob allforyn.

[34] Mae ffigyrau Cynnyrch Domestig Gros ar brisiau'r farchnad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dynodi bod Cynnyrch Domestig Gros y DU yn £1921bn yn 2015, gan awgrymu bod allforion oddi mewn i'r DU yn cynrychioli oddeutu 10% o'r Cynnyrch Domestig Gros yn 2015.

**Ffigwr 1: Amcangyfrifon 2015 o werthiannau oddi mewn i'r DU (allforion) yn ôl cenedl y DU (£bn)**




Ffynhonnell: ESCoE (2021)
Noder: Ac eithrio llifau o ffynonellau nad ydynt yn breswylwyr (gall nwyddau neu wasanaethau sy'n symud rhwng cenhedloedd y DU fod wedi'u cynhyrchu neu eu darparu gan ffynhonnell nad yw'n breswyliwr yn y DU).

2.6 Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi eu data eu hunain ar fasnach oddi mewn i'r DU, a hynny ar fewnforion ac allforion. O ran dyddiad cadarnhau'r adroddiad hwn, y flwyddyn ddiweddaraf a oedd ar gael ar gyfer y tair cenedl oedd 2019. Mae'r data hwn, a gyflwynir yn Ffigyrau 2 a 3, yn dangos bod:

- Cyfanswm gwerthiannau oddi mewn i'r DU ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2019 yn £89bn.


- O blith y tair cenedl hyn, yr Alban a fasnachodd fwyaf gyda gweddill y DU mewn termau real yn 2019, ac yna Cymru ac wedyn Gogledd Iwerddon, gyda'r gwahaniaethau real hyn yn debygol o fod oherwydd maint perthynol eu heconomïau yn bennaf. Mae Ffigwr 2 hefyd yn dangos bod y tair cenedl yn fewnforwyr net, gan awgrymu mai yn 2019 bod Lloegr yn allforiwr net i weddill marchnad fewnol y DU.

- Roedd lefel y masnachu oddi mewn i'r DU fel cyfran o gyfanswm gwerthiannau/pryniannau allanol bob cenedl[35] yn gyffelyb ar y cyfan ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler Ffigwr 3). Mae'r gyfran o werthiannau allanol drwy fasnachu oddi mewn i'r DU yn sylweddol uwch ar gyfer bob un o'r cenhedloedd hyn na'r ffigwr ar gyfer y DU ar y cyfan yn

[35] Drwy werthiannau allanol, yr hyn yr ydym yn ei olygu yw gwerthiannau y tu hwnt i genedl frodorol cwmni yn y DU, hynny yw gwerthiannau i genhedloedd eraill y DU ac i leoedd eraill yn y byd.

2015 (27%), gan awgrymu bod Lloegr yn cyfrannu cyfran llawer uwch o werthiannau y tu hwnt i'r DU.[36]


**Ffigwr 2: Cyfanswm y pryniannau a gwerthiannau allanol o/i weddill y DU yn 2019 ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (£bn, prisiau 2019)**




Ffynhonnell: Northern Ireland Economic Trade Statistics, 2019; Arolwg Masnach Cymru, 2019; Quarterly National Accounts Scotland, 2019; Export Statistics Scotland, 2019.
*Mae dros 15% (oddeutu £16.5bn) o werth masnach yn y farchnad fewnol o Gymru 'heb ei neilltuo' pan mae ymatebwyr wedi methu â neilltuo'r fasnach hon i gyrchfan benodol, felly mae'r ffigyrau hyn yn amcangyfrif is o fasnach Cymru â gweddill y DU.

**Ffigwr 3: Masnach oddi mewn i'r DU fel cyfran o gyfanswm gwerthiannau/pryniannau allanol yn 2019 ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

[36] Gwnaethom ystyried data ar fasnach allanol ac oddi mewn i'r DU ar gyfer bob un o genhedloedd y DU yn 2015 yn ein hadroddiad Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU (gweler paragraffau 3.17 i 3.19). Canfuom er bod masnachu oddi mewn i'r DU yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r masnachu ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dim ond cyfran fach o fasnach Lloegr sy'n digwydd â chenhedloedd eraill y DU. Nodwyd gennym nad yw hyn yn destun syfrdan oherwydd, i Loegr, mae cenhedloedd eraill y DU yn cynrychioli marchnad gweddol fechan, ac mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynrychioli marchnad fawr a daearyddol agos sy'n cyfrif am ran helaeth o'r gwerthiannau oddi mewn i'r DU.





Ffynhonnell: Northern Ireland Economic Trade Statistics, 2019; Arolwg Masnach Cymru, 2019; Quarterly National Accounts Scotland, 2019; Export Statistics Scotland, 2019.

2.7 Mae Gogledd Iwerddon hefyd wedi cyhoeddi data ar gyfer 2020 a 2021. Mae'r data yn awgrymu bod masnach rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU wedi parhau heb fawr o newid ar y cyfan yn ystod 2020, ond tyfodd yn 2021, fel y dangosir yn Ffigwr 4. Er ei bod yn rhy gynnar deall yn iawn pa effeithiau y cafodd COVID-19 ar batrymau masnachu, mae'n debygol o fod wedi cyfyngu'r lefelau a gwerthoedd real masnachu gan fod yr economïau mewn cyfnod o glo, gan adlewyrchu effaith COVID-19 ar economi Gogledd Iwerddon yn fwy cyffredinol.[37] Mae Ffigwr 5 yn awgrymu mai fel cyfran o gyfanswm y pryniannau/gwerthiannau allanol, roedd lefel fasnachu Gogledd Iwerddon â gweddill y DU ychydig yn uwch yn 2020 a 2021 mewn cymhariaeth â 2019.


**Ffigwr 4: Cyfanswm y pryniannau a gwerthiannau allanol o/i weddill y DU ar gyfer Gogledd Iwerddon 2019-2021 (£bn, prisiau 2021)**

[37] Cynnyrch Domestig Gros, rhanbarthau a gwledydd y DU: Hydref i Ragfyr 2021.




Ffynhonnell: Northern Ireland Economic Trade Statistics, 2021.

**Ffigwr 5: Masnach oddi mewn i'r DU fel cyfran o gyfanswm gwerthiannau/pryniannau allanol ar gyfer Gogledd Iwerddon 2019-2021**




Ffynhonnell: Northern Ireland Economic Trade Statistics, 2021.

### *Pwy sy'n masnachu oddi mewn i'r DU?*

2.8 Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod lleiafrif o'r busnesau yn masnachu gyda chenhedloedd eraill y DU a bod busnesau mwy a'r rheini yn y diwydiant gweithgynhyrchu yn fwy tebygol o fasnachu gyda chenhedloedd eraill y DU na busnesau llai a'r rhieni mewn sectorau eraill.

2.9 Mae tystiolaeth o bwy sy'n masnachu oddi mewn i'r DU ar gael gan y Business Insights and Conditions Survey (BICS), arolwg busnes a wneir bob pythefnos gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cynhwysodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y cwestiwn canlynol yn nhri chyfnod yr arolwg rhwng mis Awst 2022 a mis Chwefror 2023:[38]

- 'Yn y 12 mis diwethaf, a yw eich busnes wedi gwerthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?'[39]


2.10 Yn ôl y canlyniadau, yr awgrym yw bod oddeutu 15% o fusnesau yn masnachu gyda chwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU.[40] Er cymhariaeth, yn yr un cyfnodau'r arolwg, roedd 10% o fusnesau wedi allforio'n rhyngwladol yn y 12 mis diwethaf.[41]

2.11 Mae'r gyfran o fusnesau sydd â gwerthiannau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU yn amrywio'n syfrdanol yn ôl diwydiant. Ar draws tri chyfnod y BICS, roedd busnesau yn y diwydiant gweithgynhyrchu a chyfanwerthu a manwerthu yn fwyaf tebygol o werthu i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU, gyda thros 20% o'r cwmnïau yn gwneud hynny yn y tri chyfnod.[42]

2.12 Mae tystiolaeth o'r BICS wedi'i chefnogi'n helaeth gan ddata arall masnachu oddi mewn i'r DU, fel yr arolygwyd yn ein Hadroddiad Trosolwg, a gyhoeddwyd mis Mawrth 2022,[43] gan ddefnyddio data masnach oddi mewn i'r DU o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler Ffigwr 6). Yn ôl y dadansoddiad, yr awgrym yw mai yn achos Cymru a Gogledd Iwerddon, y sector gweithgynhyrchu oedd â'r gwerthiannau uchaf yng nghenhedloedd eraill y DU yn 2019, ac yn cyfrif am dros draean o'u gwerthiannau i weddill y DU. Y sector busnes a gwasanaethau eraill oedd y mwyaf yn yr Alban, ac yna gweithgynhyrchu.

[38] Cyfnod 63 (8-21 Awst 2022), cyfnod 68 (17-30 Hydref 2022) a chyfnod 75 (23 Ionawr – 5 Chwefror 2023).
[39] Ymatebion: 'Ydy', 'Nac ydy', 'Ddim yn siŵr'.
[40] Cyfnod 63: 14% (maint y sylfaen: 9115). Cyfnod 68: 16% (maint y sylfaen: 9673). Cyfnod 75: 15% (maint y sylfaen: 9994).
[41] Cyfnod 63 10% (maint y sylfaen: 9115), Cyfnod 68 10% (maint y sylfaen: 9673). Cyfnod 75: 10% (maint y sylfaen: 9994). Canlyniadau a gymerwyd o'r cwestiwn canlynol: 'Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich statws allforio?'. Ymatebion: 'Wedi allforio yn y 12 mis diwethaf', 'Wedi allforio dros 12 mis yn ôl', 'Erioed wedi allforio ac nid oes gennyf nwyddau na gwasanaethau sy'n addas ar gyfer allforio', 'Erioed wedi mewnforio ond mae gennyf nwyddau neu wasanaethau y gellir eu datblygu ar gyfer eu hallforio', 'Ddim yn siŵr'.
[42] Gweithgynhyrchu: Cyfnod 63: 29% (maint y sylfaen 1476), Cyfnod 68: 32% (maint y sylfaen 1575), Cyfnod 75: 41% (maint y sylfaen 1670). Cyfanwerthu a manwerthu: Cyfnod 63: 26% (maint y sylfaen 1670), Cyfnod 68: 25% (maint y sylfaen 1706), Cyfnod 75: 22% (maint y sylfaen 1736).
[43] Trosolwg o farchnad fewnol y DU.

**Ffigwr 6: Y gyfran o fusnesau sy’n ymgysylltu â masnach oddi mewn i’r DU yn ôl sector diwydiant eang, 2019**





Ffynhonnell: Northern Ireland Economic Trade Statistics, 2021; Arolwg Masnach Cymru, 2019; Quarterly National Accounts Scotland, 2019; Export Statistics Scotland, 2019.

2.13 Mae tystiolaeth o’r BICS yn awgrymu fod busnesau mwy yn fwy tebygol o fasnachu ar draws y DU na rhai bach. Fel y gwelir yn Ffigwr 7, ar draws tri chyfnod y BICS,[44] gwnaeth llai na 15% o fusnesau bach[45] werthiannau i genhedloedd eraill y DU, mewn cymhariaeth â thros 40% o fusnesau mawr.[46] Mae Ffigwr 7 hefyd yn dangos bod yr un patrwm i’w weld yn achos masnach ryngwladol, ond gyda llai o gwmnïau yn allforio’n rhyngwladol nag oddi mewn i’r DU yn y 12 mis diwethaf.[47]

---

[44] Gweler paragraff 2.9 am fanylion y cwestiwn a chyfnodau’r arolwg.
[45] Busnesau sydd â llai na 10 cyflogai.
[46] Busnesau sydd â 250 neu fwy o gyflogeion.
[47] Canlyniadau a gymerwyd o’r cwestiwn canlynol: ‘Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau eich statws allforio?’. Ymatebion: ‘Wedi allforio yn y 12 mis diwethaf’, ‘Wedi allforio dros 12 mis yn ôl’, ‘Erioed wedi allforio ac nid oes gennyf nwyddau na gwasanaethau sy’n addas ar gyfer allforio’, ‘Erioed wedi mewnforio ond mae gennyf nwyddau neu wasanaethau y gellir eu datblygu ar gyfer eu hallforio’, ‘Ddim yn siŵr’.

**Ffigwr 7: Y gyfran o fusnesau sydd â gwerthiannau i gwsmeriaid yn ôl cyrchfan a maint band (cyflogeion)[48]**




Ffynhonnell: Business Insights and Conditions Survey

## Profiadau o fasnach oddi mewn i'r DU

2.14 Yn ogystal â deall graddfa a phatrymau masnach oddi mewn i'r DU, rydym wedi ystyried profiadau busnesau o fasnach oddi mewn i'r DU.

2.15 Cynhwysodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y cwestiwn canlynol yn nhri chyfnod y BICS:[49]

- 'Yn y 12 mis diwethaf, pa un o'r heriau canlynol, os unrhyw rai, mae eich busnes wedi'i hwynebu wrth werthu nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU?[50]

2.16 Mae'r dystiolaeth a gafwyd o'r BICS yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n masnachu oddi mewn i'r DU yn wynebu heriau wrth werthu i genhedloedd eraill y DU. Yn nhri chyfnod BICS, dywedodd dros hanner y busnesau a werthodd nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid yng nghenhedloedd eraill y DU eu bod wedi wynebu unrhyw heriau wrth wneud

[48] Meintiau sylfaen Cyfnod 63: 0-9: 1026; 10-49: 1988; 50-99: 2720; 100-249: 1595; 250+: 1786. Meintiau sylfaen Cyfnod 68: 0-9: 1075; 10-49: 1970; 50-99: 2911; 100-249: 1805; 250+: 1912. Meintiau sylfaen Cyfnod 75: 0-9: 1096; 10-49: 2067; 50-99: 3027; 100-249: 1817; 250+: 1983.
[49] Cyfnod 63 (8-21 Awst 2022), cyfnod 68 (17-30 Hydref 2022) a chyfnod 75 (23 Ionawr – 5 Chwefror 2023).
[50] Ymatebion: 'Heriau mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon', 'Gwahaniaethau yn y rheolau neu reoliadau', 'Diffyg galw', 'Tarfu yn y gadwyn gyflenwi', 'Capasiti cludiant', 'Costau cludiant', 'Arall', 'Ddim yn siŵr', 'Busnes heb wynebu unrhyw heriau'.

hynny.[51] O blith y busnesau hynny a fasnachodd gyda chenhedloedd eraill y DU, dim ond ychydig ohonynt a ddywedodd eu bod wedi wynebu heriau oherwydd gwahaniaethau yn y rheolau neu reoliadau, gyda llai nag 1 ym mhob 10 yn nodi hyn yn her yn y tri chyfnod.[52] Nodwyd costau cludiant fel y broblem fwyaf i'r busnesau hynny a wynebodd heriau wrth fasnachu gyda chenhedloedd eraill y DU, gyda thros un ym mhob chwech o fusnesau yn nodi hyn yn broblem yn y tri chyfnod.[53]

2.17 Er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o brofiad busnesau o fasnach oddi mewn i'r DU, gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol gyda 45 o fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau'r DU. Cafodd y grŵp sampl eu dewis mewn perthynas â thri pharamedr: yn ôl cenedl, yn ôl maint ac yn ôl sector, gyda ffocws ar amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, bwyd a diod a manwerthu, gweithgynhyrchu ac adeiladu.[54] Roedd y dull hwn yn sicrhau y gallai'r ymchwilwyr fynd ati i gasglu gwybodaeth ynghylch amrywiaeth o brofiadau busnes, ar draws cenhedloedd y DU.

2.18 O ystyried lefelau isel y newid rheoliadol oddi mewn i'r DU ers Brexit, un nodwedd bwysig o'n hymchwil ansoddol oedd y defnydd o 'sefyllfaoedd damcaniaethol' (senarios) i ddarparu busnesau ag enghraifft ddarluniadol a chyffredinol o wahaniaethau mewn rheoliadau oddi mewn i'r DU. Dyma'r senarios:

- Senario 1: 'Yn eich busnes, mae'r prif nwydd/cynnyrch yr ydych chi'n ei weithgynhyrchu yn cynnwys ffactor penodol. Mae un genedl yn y DU yn gwahardd gwerthu nwyddau/cynhyrchion sy'n cynnwys y ffactor penodol hwn.'

- Senario 2: 'Mae un genedl yn y DU yn cyflwyno gofynion labelu newydd ar y brif nwydd/cynnyrch yr ydych chi'n ei weithgynhyrchu.'

- Senario 3: 'Mae un genedl yn y DU yn gwahardd cyflenwi'ch gwasanaethau yn ei chenedl oni bai bod darparwyr gwasanaeth fel chi yn cydymffurfio â gofyniad newydd ac ychwanegol (rheoliadol).'

---

[51]Cyfnod 63: 56% (maint y sylfaen 3171), Cyfnod 68: 53% (maint y sylfaen 3455), Cyfnod 75: 55% (maint y sylfaen 3595).

[52]Cyfnod 63: 9% (maint y sylfaen 3171), Cyfnod 68: 5% (maint y sylfaen 3455), Cyfnod 75: 8% (maint y sylfaen 3595).

[53]Cyfnod 63: 17% (maint y sylfaen 3171), Cyfnod 68: 17% (maint y sylfae 3455), Cyfnod 75: 22% (maint y sylfaen 3595).

[54] Roedd y rhain ymhlith y sectorau a adnabuwyd yn ein hadroddiad Trosolwg o'r Adroddiad ar Farchnad Fewnol y DU sydd â'r potensial am wahaniaethau rheoliadol a allai effeithio ar farchnad fewnol y DU.

2.19 Yn ôl tystiolaeth o’r ymchwil hwn, canfuwyd mai prin oedd y busnesau a gafodd brofiad o unrhyw wahaniaeth rheoliadol wrth fasnachu oddi mewn i’r DU. Ar gyfer cyfranogwyr yr ymchwil, roedd masnachu oddi mewn i’r DU yn aml yn rhan allweddol bwysig, ac yn gyfran fawr o’u busnes. Ar gyfer busnesau bach a oedd yn llawer llai tebygol o fasnachu’n rhyngwladol, roedd masnach oddi mewn i’r DU yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig er eu goroesiad a’u twf.

2.20 Yn gyffredinol, ymddengys bod masnach oddi mewn i’r DU yn gweithredu’n llyfn, gyda’r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn wynebu dim neu ychydig iawn o broblemau masnachu ar draws ffiniau’r DU, canfyddiad sydd wedi’i gefnogi gan ein dadansoddiad o ymatebion i’r BICS, a nodwyd uchod. Yn wir, ar gyfer y cyfranogwyr ymchwil, ni ymddengys bod ffiniau oddi mewn i’r DU yn ystyriaeth wrth benderfynu lle fyddai busnesau yn prynu neu’n gwerthu. Gydag ychydig o brofiad o wahaniaethau rheoliadol ar draws cenhedloedd y DU, mae busnesau yn parhau i weld y DU fel un farchnad. Dywedodd busnesau fod eu gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar alw cwsmeriaid, argaeledd cyflenwyr, a chostau a phellter teithio, yn fwy nag ystyried ffiniau oddi mewn i’r DU ac nid oedd busnesau i weld yn ystyried masnach oddi mewn i’r DU fel ‘masnachu ar draws ffiniau’.

2.21 Roedd y busnesau a gymerodd ran yn ein hymchwil ansoddol yn canolbwyntio ar yr amgylchedd cyfredol, pan oedd heriau yn ymwneud â Brexit yn bryder arbennig. Roedd y profiad o symud i ffwrdd o reoliadau a safonau’r UE wedi creu dealltwriaeth y byddai gwahaniaeth rheoliadol yn y DU hefyd yn achosi tarfu. Nid oedd lefel uchel iawn o ddealltwriaeth ymhlith busnesau a gymerodd ran yn yr ymchwil am y ffaith bod gwahaniaethau rheoliadol oddi mewn i’r DU yn ganlyniad posibl i ymadawiad y DU o’r UE.

2.22 Pan gyflwynwyd nhw i’r cysyniad o wahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd y DU, cafodd busnesau hi’n anodd deall pwy sy’n elwa o’r gwahaniaeth hwnnw. Cydnabu rai cyfranogwyr y gall uchelgeisiau gwleidyddol neu bwysau prynwyr fod wrth wraidd newid rheoliadol. Ond roedd busnesau yn bryderus y gallai gwahaniaethau oddi mewn i’r DU fod yn gostus a chymleth a rhoi’r economi dan anfantais yn gyffredinol, yn enwedig yng nghyd-destun ffactorau eraill, fel pwysau chwyddiant.

2.23 Yn gyffredinol, dywedodd busnesau y dylai eu bod yn gallu ymdopi â gwahaniaethau oddi mewn i’r DU yn y dyfodol, ond pan gyflwynwyd senarios penodol iddynt, dywedasant ei fod yn heriol. Ar gyfer y rheini sy’n dibynnu’n fawr ar farchnad yng nghenedl arall y DU, byddai’r heriau yn fwy acíwt, a gall busnesau llai ei chael hi’n fwy anodd ymdrin â nhw oherwydd bod ganddynt lai o adnoddau a dim llawer o brofiad o addasu i reoliadau. Nid oedd unrhyw un o gyfranogwyr ein sampl wedi rhoi cynlluniau penodol ar waith i baratoi ar

gyfer heriau posibl a all gael eu hamlygu drwy newid rheoliadol, neu eu lliniaru. Gallai hyn gynrychioli diffyg ymwybyddiaeth o newid posibl ac mae hefyd yn pwysleisio bod rhai busnesau yn gweld eu paratoadau ar gyfer Brexit yn methu â chadw ar flaen digwyddiadau. Dywedodd busnesau fod hyn wedi eu hysgogi i 'aros a gweld beth sy'n digwydd' nes bod manylion penodol newidiadau pellach yn dod yn hysbys.

2.24 Gwnaethom hefyd gynnal trafodaethau bord gron gyda chymdeithasau masnach a busnesau, arbenigwyr cyfreithiol, ac academyddion ac arbenigwyr polisi i ddeall safbwyntiau rhanddeiliaid ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU a'r modd mae'r trefniadau a nodwyd yn y Ddeddf yn gweithio. Mae tystiolaeth o'r trafodaethau bord gron hyn yn pwysleisio bod masnach oddi mewn i'r DU yn hollbwysig a bod busnesau, ar y cyfan, eisiau gweld cysondeb ar draws y pedair cenedl, un o ganfyddiadau ein hymchwil ansoddol hefyd.

2.25 Dywedodd rai cyfranogwyr fod masnach y tu hwnt i'r DU yn bwysig, yn cynnwys ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau sy'n dechrau arni. Clywsom y gallai unrhyw rwystrau ychwanegol gael effeithiau ar yr awch am fuddsoddiad, a all, yn ei dro, effeithio ar y gallu i allforio, ac awgrymodd cyfranogwyr fod marchnad fewnol sy'n gweithredu'n dda yn bwysig ar gyfer masnach yn ehangach.

2.26 Awgrymodd cymdeithasau masnach y bydd gwahaniaeth rheoliadol yn effeithio'n anghymesur ar fusnesau llai gan y bydd goblygiadau costau uwch yn cael effaith llawer mwy sylweddol ar fusnesau bach. Awgrymodd cyfranogwyr yn y trafodaethau bord gron y gallai gwahaniaethau rheoliadol hefyd effeithio prynwyr gan fod unrhyw oblygiadau o ran costau i fusnesau yn debygol o gael eu trosglwyddo i'r prynwr.

## Casgliad

2.27 Mae'r data sydd ar gael ar fasnachu oddi mewn i'r DU yn brin ar hyn o bryd, gydag oedi hir cyn bod ffigyrau ar gael ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a dim data o gwbl ar gyfer Lloegr, ac mae anghysondebau yn y ffordd y caiff data ei gasglu a'i gynhyrchu sy'n effeithio ar y gallu i gymharu. Wedi dweud hynny, mae peth arwyddion wedi'u hamlygu. Yn benodol, canfuom fod masnach oddi mewn y DU yn bwysig iawn i genhedloedd y DU, yn cynrychioli oddeutu 45% i 65% o werthiannau a phryniannau allanol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er ei bod yn llai na hynny yn Lloegr o ganlyniad i faint perthynol ei economi.

2.28 Canfuom mai dim ond lleiafrif o fusnesau sy'n masnachu gyda chenhedloedd eraill y DU, ac mae masnach o'r fath yn fwy cyffredin ymhlith busnesau mwy

ac yn sectorau penodol, gweithgynhyrchu yn enwedig. Mae’r patrymau hyn, ynghyd â’r gwahaniaethau rhwng cenhedloedd o ran pwysigrwydd perthynol gwahanol sectorau a gwahaniaethau yn nosbarthiad meintiau cwmnïau a’u heconomïau, yn effeithio ar bwysigrwydd masnach oddi mewn i’r DU ar gyfer cenhedloedd gwahanol.

2.29 Ar y cyfan, mae busnesau yn ei chael hi’n rhwydd masnachu gyda chenhedloedd eraill y DU, gyda chwmnïau yn ymateb i’r BICS a’n hymchwil ansoddol ar y cyfan yn mynegi nad ydynt wedi wynebu heriau. Yn ogystal, i raddau helaeth nid yw busnesau yn ymwybodol o’r potensial am wahaniaethau rheoliadol yn codi rhwng cenhedloedd y DU. Pan godwyd y potensial am newidiadau o’r fath gyda’r rheini a gymerodd ran yn ein hymchwil ansoddol ac yn ein trafodaethau born gron, ystyriodd rhanddeiliaid y gallai godi heriau ac y ffefrir cysondeb, er bod y busnesau y clywsom ganddynt ar y cyfan yn dweud y byddant yn gallu addasu i newid rheoliadol. Wedi dweud hynny, mae ein tystiolaeth yn awgrymu y gall rhai cwmnïau llai ei chael hi’n fwy heriol addasu, ac mae rhai pryderon wedi’u codi mewn perthynas â datblygiadau rheoliadol allweddol a all effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol, yr ydym yn ei disgrifio yn y bennod nesaf.

# 3. Datblygiadau rheoliadol

## Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon, trafodir rhai datblygiadau cyfredol mewn rheoliadau a rhai datblygiadau'r dyfodol sy'n effeithio, neu all effeithio, ar farchnad fewnol y DU. Mae'n rhoi cefndir cryno o ddull gweithredu pob cenedl yn y maes polisi neu reoliad dan sylw a chrynodeb o sylwadau'r rhanddeiliad ar ei oblygiadau ar farchnad fewnol y DU. Yna, cymerwn gipolwg ar y datblygiadau sydd i ddod i reoliadau a allai effeithio ar farchnad fewnol y DU dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r casgliad yn nodi rhai themâu cyffredin yr ydym ni'n gobeithio a fydd yn cynorthwyo llunwyr polisi wrth ystyried effeithiau posibl newid rheoliadol yn y dyfodol ar farchnad fewnol y DU.

3.2 Yn fras, caiff datblygiadau eu gorchymyn yn seiliedig ar y lefel o ddiddordeb maent wedi'i chynhyrchu ymhlith rhanddeiliaid, sef busnesau a chymdeithasau masnach yn bennaf, a lefel y manylion am y polisi sydd ar gael yn gyhoeddus i fod yn sail i'n dadansoddiad.

3.3 I adnabod y datblygiadau rheoliadol sydd â'r mwyaf o botensial i effeithio ar farchnad fewnol y DU, gwnaethom dynnu ar ein gwaith monitro desg o ymgynghoriadau'r llywodraeth a gweithgarwch y pedair deddfwrfa yn bennaf. Yn ein trafodaethau bord gron, gwnaethom hefyd ofyn i gyfranogwyr am y meysydd maent yn rhagweld newid yn y dyfodol. Y prif feysydd a adnabuwyd gan gyfranogwyr oedd amaethyddiaeth (gan gynnwys is-gwmnïau amaethyddol, golygu genynnau a biodechnoleg, plaladdwyr a chynhyrchion diogelu planhigion, a chludo anifeiliaid), yr amgylchedd (goblygiadau mwy o gyfrifoldeb i gynhyrchwyr, cynlluniau dychwelyd ernes, deunydd pacio, a gwastraff) a bwyd a diod (gwenwynau ffwng a bwydydd sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr). Meysydd eraill a adnabuwyd oedd y diwydiant modurol, y diwydiant adeiladu, cemegion, a chynhyrchion cosmetig.

3.4 Mae'r pynciau hyn hefyd yn gyson â'r meysydd polisi a adnabuwyd yn y Trosolwg o'r Adroddiad ar Farchnad Fewnol y DU sydd â'r potensial i effeithio ar farchnad fewnol y DU; ymhlith y rhain oedd datblygiadau rheoliadol yn ymwneud â'r amgylchedd, amaethyddiaeth, llesiant anifeiliaid, bwyd, diod ac iechyd.[55] Yn y dyfodol, gall yr OIM edrych yn agosach at un neu fwy o'r

[55] Trosolwg o'r Adroddiad ar Farchnad Fewnol y DU, Mawrth 2022.

meysydd hyn, er enghraifft ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol neu drwy adolygiadau neu adroddiadau disgresiynol.[56]

3.5 Fis Rhagfyr 2022, gwnaethom rannu gyda'r llywodraethau ein hasesiad newydd mai'r sectorau canlynol yw'r datblygiadau mwyaf perthnasol o bersbectif marchnad fewnol y DU: cyfyngiadau ar blastig untro, cynlluniau dychwelyd ernes, technoleg genetig, a mesurau yn ymwneud â bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr. Gwnaethom eu gwahodd i roi eu barn ac roedd safbwyntiau'r llywodraeth yn unol â'n hasesiad.

3.6 Mae sylwadau gan randdeiliaid wedi'u tynnu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyflwyniadau drwy ein ffurflen we a'r safbwyntiau a gawsom yn ystod trafodaethau bord gron. Rydym hefyd wedi cyfeirio at ddeunydd cyhoeddedig, megis tystiolaeth a gyflwynwyd i bwyllgorau seneddol gohebiaeth lywodraethol ac adroddiadau newyddion. Yn nifer o achosion, mae'r newidiadau rheoliadol a'r materion cysylltiedig sydd wedi'u nodi yn y bennod hon wedi ennyn safbwyntiau cryf gan lywodraethau, busnesau, cyrff masnachu a sefydliadau'r trydydd sector. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, awgryma ein hymchwil nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau oddi mewn i'r DU eisoes wedi dod ar draws gwahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd (fel y nodwyd uchod, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygu effaith y Protocol na'r ddeddfwriaeth sydd wrth wraidd iddo ar weithrediad marchnad fewnol y DU).

3.7 Mae'r datblygiadau yr ydym yn canolbwyntio arnynt yn y bennod hon yn ymwneud â nwyddau yn bennaf. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddatblygiadau yn ymwneud â gwasanaethau neu gymwysterau proffesiynol sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf y mae disgwyl iddynt effeithio'n sylweddol ar farchnad fewnol y DU, ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw rai ychwaith. Byddwn yn parhau i fonitro'r meysydd hyn.

## Ceisiadau am gyngor/adroddiadau i'r OIM dan aa34-36 y Ddeddf

3.8 Yn y 12 mis diwethaf, daeth un cais i law am adroddiad dan adran 34 y Ddeddf. Roedd y cais hwn yn ymwneud â chynnig Defra i wahardd gwerthu mawn garddwriaethol a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn garddwriaethol yn Lloegr.[57] Cyhoeddwyd ein hadroddiad mis Chwefror 2023.

[56] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch egwyddorion blaenoriaethu'r OIM yn y Canllawiau ar Weithrediad Swyddogaethau Marchnad Fewnol y DU y CMA.
[57] Adroddiad ar y rheoliad arfaethedig i wahardd gwerthu mawn yn Lloegr, Awst 2022.

3.9 Dan yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, os yw cyfrwng tyfu sy'n cynnwys mawn yn cael ei gynhyrchu'n gyfreithiol yn y rhan o'r DU y mae hi hefyd yn gyfreithiol ei werthu (neu ei fewnforio iddi), yna gellir ei werthu yn unrhyw genedl yn y DU, gan gynnwys Lloegr, heb fod angen cydymffurfio ag unrhyw ofynion a orfodir drwy'r rheoliad yn Lloegr.

3.10 Drwy ein hymchwil a'n dadansoddiad, adnabuom fod y defnydd o fawn mewn garddwriaeth wedi gostwng dros y degawd diwethaf, a hynny oherwydd mwy o ddefnydd o gyfryngau tyfu di-fawn a gostyngiad yn y gyfran o fawn a ddefnyddir mewn cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn. Mae'r duedd hon yn adlewyrchu'r newid yn ymwybyddiaeth amgylcheddol y defnyddwyr, dymuniad manwerthwyr i gyflawni eu hymrwymiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a'r ffaith bod gweithgynhyrchwyr yn rhagweld camau'r llywodraeth i wahardd y defnydd o fawn. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, yn ein hadroddiad canfuom y byddai mawn yn parhau i gael ei ddefnyddio yn Lloegr am y rhai blynyddoedd nesaf heb y gwaharddiad arfaethedig.

3.11 Yn gyffredinol, casglwn mai prin fydd y cymelliannau i weithgynhyrchwyr a manwerthwyr werthu cyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn yn Lloegr pan ddaw gwaharddiad arfaethedig Defra i rym. Ond, mae'r canfyddiad hwnnw'n ddibynnol ar argaeledd y mewnbynnau angenrheidiol i wneud y cyfryngau tyfu di-fawn. Er y credir bod prinder ar raddfa fawr yn annhebygol, gall peth brinder godi, gan achosi'r posibilrwydd y bydd gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn troi at gyfryngau tyfu sy'n cynnwys mawn.

3.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu gwahardd manwerthu mawn garddwriaethol yng Nghymru ac y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar gamau nesaf i weithredu'r gwaharddiad yng Nghymru.[58] Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cynlluniau i adfer mawndiroedd wedi'u diraddio ac mae hi hefyd yn ymrwymedig i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio mawn mewn garddwriaeth. Bydd yr amserlen ar gyfer hyn yn cael ei phennu yn dilyn ymgynghoriad ar roi'r gorau i werthu mawn yn yr Alban, a gyhoeddwyd mis Chwefror 2023.[59] Mae Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA) wedi ymgynghori ar Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Strategaeth Mawndiroedd Gogledd Iwerddon fis Awst 2022 a disgwylir cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ddechrau 2023. Mae Strategaeth Mawndiroedd ddrafft Gogledd Iwerddon yn cynnwys cynnig i gynnal adolygiad a chyhoeddi

[58] Llywodraeth Cymru, Gwerthu mawn mewn garddwriaeth yng Nghymru i ddod i ben, Rhagfyr 2022.
[59] Llywodraeth yr Alban, Ending the sale of peat: consultation - gov.scot (www.gov.scot), Chwefror 2023.

papur ar y prif broblemau ynghlwm ag echdynnu mawn a'r defnydd o fawn a chynnyrch mawn erbyn 2023 a symud unrhyw argymhellion a wneir ymlaen.[60]

## Cynlluniau dychwelyd ernes

### *Disgrifiad*

3.13 Mae pedair llywodraeth y DU yn y broses o gyflwyno cynlluniau dychwelyd ernes. Nod y cynlluniau hyn yw codi cyfraddau ailgylchu ar gyfer cynwysyddion yfed drwy gymell prynwyr i'w dychwelyd. Codir tâl ar gynwysyddion o fewn y cwmpas, y gellir ei adennill pan gaiff y cynhwysydd ei ddychwelyd. Bydd manwerthwyr sy'n cynnig pwynt dychwelyd i gynhwyswyr yn cael tâl trin am ymwneud â'r cynwysyddion wedi'u dychwelyd. Bydd gofyn i gynhyrchwyr dalu tâl cynhyrchwr, sy'n cyfrannu at gostau gweithredu pob cynllun a bodloni rhwymedigaethau penodol.

3.14 Mae disgwyl i gynllun Llywodraeth yr Alban ddod i rym ar 16 Awst 2023.[61] Mae disgwyl i'r cynllun yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon lansio ar 1 Hydref 2025.[62]

3.15 Mae'r cynlluniau wedi'u dylunio yn seiliedig ar ffactorau cyffelyb, gydag un neu fwy o weinyddwyr cynlluniau a rhwymedigaethau yn cael eu rhoi ar gynhyrchwyr a manwerthwyr. Circularity Scotland Ltd fydd gweinyddwr y cynllun yn yr Alban. Bydd cynhyrchwyr sy'n gwerthu diodydd ym marchnad yr Alban yn destun rhwymedigaethau penodol, gan gynnwys ad-dalu blaendaliadau a chymryd hen gynwysyddion yn ôl. Gallant ddewis bodloni'r rhwymedigaethau hyn yn uniongyrchol neu gall gweinyddwr y cynllun weithredu ar eu rhan.[63] Rydym ar ddeall mai'r bwriad yw y bydd y cynllun yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn cael ei weinyddu gan Sefydliad Rheoli Blaendaliadau, y mae disgwyl i un gael ei benodi erbyn haf 2024.[64] Bydd angen i gynhyrchwyr yn y cenhedloedd hyn gofrestru gyda'r Sefydliad Rheoli Blaendaliadau cyn y gallant werthu cynwysyddion oddi mewn i'r cwmpas yn y farchnad, a bydd y Sefydliad Rheoli Blaendaliadau yn casglu cynwysyddion sydd wedi'u dychwelyd ar eu rhan.

[60] DAERA, NI Peatland Strategy Consultation - Summary of Responses, Rhagfyr 2021.
[61] Zero Waste Scotland, Deposit Return Scheme overview.
[62] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.
[63] Nodyn polisi, The Deposit and Return Scheme for Scotland Regulations 2020.
[64] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.

3.16 Ym mhob cenedl, bydd rhaid i fanwerthwyr sy'n gwerthu cynwysyddion perthnasol gynnal pwynt dychwelyd oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gorfod gwneud hynny. Yn yr Alban, gweinidogion yr Alban fydd yn cyhoeddi eithriadau.[65] Gellir gwneud cais am eithriad yn seiliedig ar agosrwydd neu iechyd yr amgylchedd. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn golygu bod pwynt dychwelyd cyfagos ar gael sy'n fodlon derbyn dychweliadau ar ran busnes, neu y byddai gweithredu pwynt dychwelyd yn golygu bod busnes yn torri amod deddfwriaeth arall, megis iechyd yr amgylchedd, diogelwch bwyd neu ddiogelwch tân.[66] Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, bydd y Sefydliad Rheoli Blaendaliadau yn gyfrifol am eithriadau.[67] Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi manylion y cynlluniau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn awgrymu y bydd seiliau'r eithriad yn gyffelyb i'r rheini yng nghynllun yr Alban.[68] Bydd y rheoleiddiwr amgylcheddol ym mhob rhan o'r DU a Safonau Masnach yn gyfrifol am orfodi'r cynlluniau arfaethedig.[69]

3.17 Er bod tebygrwydd rhwng y cynlluniau, disgwylir y bydd gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yn yr Alban a gweddill y DU, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae un gwahaniaeth yn ymwneud â labelu: yn yr Alban, mae gweinyddwr y cynllun wedi pennu y bydd y ffi i'r cynhyrchwr yn uwch ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys labeli a chodau bar sy'n benodol i'r Alban. Mae Defra, Llywodraeth Cymru a DAERA yn bwriadu ei gwneud hi'n ofynnol marcio cynhyrchion sy'n rhan o gynllun dychwelyd ernes a defnyddio marciwr adnabod, fel cod bar neu god QR, er mwyn adnabod y cynhwysydd pan gaiff ei ddychwelyd. Bydd manylion a dyluniad y marciau hyn yn cael eu pennu gan y sefydliad rheoli blaendaliadau.

3.18 Mae gwahaniaeth arall yn ymwneud â'r deunyddiau oddi mewn i'r cwmpas. Bydd y cynllun arfaethedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cynnwys cynwysyddion plastig polyethylen tereffthalat (PET), dur ac alwminiwm. Bydd cynlluniau yng Nghymru a'r Alban hefyd yn cynnwys cynwysyddion gwydr.

3.19 Gall gwahaniaeth posibl hefyd ymwneud â'r blaendal a'r ffioedd i gynhyrchwyr ar draws y cynlluniau dychwelyd ernes amrywiol. Ar gyfer y cynlluniau dychwelyd ernes yn yr Alban, caiff lefel y blaendal a'r ffi cofrestru cynhyrchwyr eu pennu gan y rheoliadau ar gyfradd osodedig o 20c a £365, yn y drefn

---

[65] Zero Waste Scotland, Deposit Return Scheme Return point exemptions, Rhagfyr 2022.
[66] Zero Waste Scotland, Deposit Return Scheme Return point exemptions, Rhagfyr 2022.
[67] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.
[68] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.
[69] Dyma nhw: Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Environment Agency yng Ngogledd Iwerddon a'r Protection Agency yn yr Alban.

honno.[70] Caiff lefel y blaendal a'r ffi cofrestru cynhyrchwyr ar gyfer y cynllun arfaethedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu pennu gan y Sefydliad Rheoli Blaendaliadau a gallant fod yn wahanol i'r rheini sydd wedi'u gosod yn yr Alban.

3.20 Mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau'r broses o geisio ag eithrio'r rheoliadau cynlluniau dychwelyd ernes rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.[71]

***Sylwadau gan randdeiliaid***

3.21 Y cynllun dychwelyd ernes yw'r mater sydd wedi ennyn y mwyaf o sylw drwy ein gwasanaeth adrodd ar-lein. Gweler isod rhai o'r sylwadau gan randdeiliaid.

3.22 Mae cynhyrchwyr a manwerthwyr wedi mynegi pryderon bod gwydr wedi'i gynnwys yng nghwmpas Cymru a'r Alban, ond nid yng nghwmpas Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dywedasant fod gwydr yn llawer mwy costus i'w brosesu na deunyddiau cynwysyddion eraill, gan ei fod yn drymach ac nid oes modd ei gywasgu. Felly, rhaid ei gasglu'n fwy aml a'i gludo mewn symiau llai.[72] Mae grwpiau amgylcheddol wedi mynegi siom na fydd gwydr yn cael ei gynnwys yn y cynllun dychwelyd ernes yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.[73]

3.23 Gan y bydd ffi cynhyrchwr uwch yn cael ei chodi ar gynhyrchwyr sy'n defnyddio label y DU gyfan yn yr Alban, mae cynhyrchwyr wedi dweud wrthym ni y byddant yn wynebu mwy o gostau: naill ai drwy'r ffi cynhyrchwyr uwch, neu drwy'r gost o ddylunio ac argraffu labeli gwahanol a rheoli'r logisteg o olrhain pa stoc fydd yn cael ei werthu yn yr Alban (gan gynnwys y risg y bydd rhai stoc yn mynd yn ddarfodedig os caiff ei anfon i'r genedl anghywir yn ddamweiniol). Yn ôl cynhyrchwyr, byddant yn wynebu baich gweinyddol ac o ran logisteg wrth bennu ymlaen llaw faint o'u stoc fydd yn cael ei werthu yn yr Alban. Rydym hefyd wedi clywed gan fewnforwyr bod cynhyrchwyr diodydd tramor yn annhebygol o fabwysiadu label neu god bar yn benodol i'r Alban, sy'n golygu y bydd eu cynhyrchion naill ai'n cael eu tynnu oddi ar y farchnad

---

[70] Mae busnesau sydd â throsiant blynyddol yn is na £85,000 wedi'u heithrio rhag talu'r ffi cofrestru cynhyrchwyr i Circularity Scotland Ltd. Bydd yn ofynnol i'r Sefydliad Rheoli Blaendaliadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ymgynghori ar sut fydd ffioedd cofrestru cynhyrchwyr yn cael eu pennu, gan gynnwys sut fydd maint cynhyrchwyr yn cael ei ystyried i leihau'r effaith berthynol o ran costau i gynhyrchwyr llai.
[71] Llywodraeth yr Alban, Letter to MSPs on Deposit Return Scheme, Chwefror 2023.
[72] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.
[73] BBC News, Glass bottles excluded from deposit return plans, Ionawr 2023.

yn yr Alban, neu y bydd rhaid iddynt ymdopi â'r gost o ail-labelu cynhyrchion a fydd yn cael eu gwerthu yn yr Alban.

3.24 Un pryder sylweddol i fanwerthwyr yw y byddai gofyn iddynt gynnig gwasanaeth ar-lein yn cymryd cynwysyddion yn ôl dan gynllun Llywodraeth yr Alban – h.y. gallai cwsmeriaid sy'n archebu cynwysyddion i'w danfon drefnu hefyd i rywun eu casglu. Bydd Llywodraeth yr Alban yn addasu rheoliadau'r cynllun dychwelyd ernes er mwyn cynnig gwasanaeth ar-lein cymryd cynwysyddion yn ôl o 2025, a hynny dim ond gan y manwerthwyr bwyd mwyaf.[74] Mae Defra, Llywodraeth Cymru a DAERA wedi dweud eu bod yn awyddus i sicrhau bod marchnadoedd mawr sy'n danfon siopa bwyd hefyd yn cynnig gwasanaeth cymryd cynwysyddion yn ôl pan fydd eu cynllun yn lansio. Maent yn ystyried sut allai busnesau ar-lein eraill gynnig gwasanaeth cymryd cynwysyddion yn ôl pryd bynnag mae hynny'n ddichonadwy.[75]

3.25 Yn ôl rhai cynhyrchwyr, mae'n bosibl y byddant yn ystyried tynnu'n ôl o'r farchnad yn yr Alban, naill ai'n barhaol neu nes bod cynlluniau dychwelyd ernes cydsyniol ar waith ledled y DU.[76] Y rheswm dros hyn yw oherwydd y teimlant y gallai'r gost ychwanegol o gydymffurfio â gofynion cynllun dychwelyd ernes yn yr Alban yn unig olygu nad yw gweithredu yno yn ddichonadwy bellach.

3.26 Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau ar y cynllun dychwelyd ernes arfaethedig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr – sy'n llai datblygedig mewn perthynas â'r polisi a'r manylion gweithredu nag yn yr Alban – yn canolbwyntio ar oblygiadau amgylcheddol eithrio gwydr rhag cael ei gynnwys yng nghwmpas y cynllun, ac ar y dyddiad lansio yn 2025. Mae'r rheini a fynegodd sylw hefyd wedi nodi cymhlethdod posibl cydymffurfio â dulliau gweithredu gwahanol ledled y DU, gyda Chonsortiwm Manwerthu Prydain yn nodi, os yw Llywodraeth y DU am fynd ymlaen â hyn, rhaid iddi sicrhau bod y cynllun yn cyd-fynd â'r cenhedloedd datganoledig, gan ganiatáu effeithiolrwydd o ran graddfa i leihau'r costau a'r cymhlethdod a fydd yn wynebu prynwyr.[77]

---

[74] Llywodraeth yr Alban, Letter to MSPs on Deposit Return Scheme, Chwefror 2023.
[75] Defra, DAERA, Llywodraeth Cymru, Government consultation response: Introduction of a deposit return scheme in England, Wales and Northern Ireland, Ionawr 2023.
[76] Scottish Parliament Cross-Party Group on Beer and Pubs, Beer and Pub Inquiry DRS report, Ebrill 2022. Yn ystod yr ymchwiliad, clywyd gan y Society of Independent Brewers y byddai tri chwmni bragu bach yn yr Alban yn rhoi'r gorau i fasnachu oherwydd costau cynllun dychwelyd ernes, ac roedd mwy yn wynebu'r dewis rhwng peidio â gwerthu yn yr Alban neu werthu cynhyrchion yr Alban yn unig i archfarchnadoedd, a hynny yn eu colled.
[77] Consortiwm Manwerthu Prydain, Government confirms next steps for a Deposit Return Scheme in England, Wales and NI, Ionawr 2023.

## Cynhyrchion plastig untro

### *Disgrifiad*

3.27 Mae cynigion wedi'u rhoi ar waith, neu'n cael eu rhoi ar waith, ledled y DU i fynd i'r afael â'r broblem o wastraff plastig un defnydd, ond mae rhai gwahaniaethau ymhlith y dulliau gweithredu ar draws y pedair cenedl.[78]

3.28 Gweithredodd Llywodraeth yr Alban waharddiad ar 1 Mehefin 2022 ar gyflenwi ac yn nifer o achosion, gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro penodol, gan gynnwys troellwyr diod, gwelltyn yfed, platiau, cyllyll a ffyrc, ffyn balŵns a chynwysyddion polystyren wedi'u chwyddo.[79]

3.29 Pasiodd y Senedd y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) fis Rhagfyr 2022. [80] Bydd hyn yn golygu y bydd rhai cynhyrchion plastig untro yn cael eu gwahardd. Mae tair eitem sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn heb eu cynnwys mewn unrhyw waharddiadau presennol neu sydd i ddod yn Lloegr a'r Alban. Yr eitemau hyn yw bagiau plastig untro, eitemau wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy[81] a chaeadau polystyren ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion bwyd i fynd. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno'r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu neu ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion untro.

3.30 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i wahardd yn Lloegr y cyflenwad o rai eitemau plastig untro sydd wedi'u gwahardd yn yr Alban ac sydd ar fin cael eu gwahardd yng Nghymru, gan gynnwys platiau a chyllyll a ffyrc – er na fydd y gwaharddiad yn Lloegr yn berthnasol i blatiau, hambyrddau a phowlenni a ddefnyddir fel deunyddiau pacio mewn eitemau bwyd wedi'u pecynnu ymlaen llaw ac sy'n barod i'w bwyta (megis powlenni salad wedi'u pecynnu ymlaen llaw), gan y bydd y rhain yn berthnasol i gynllun cyfrifoldeb cynhyrchwr estynedig.[82] Mae cyflenwi ffyn cotwm eisoes wedi'i wahardd yn Lloegr a'r Alban cyn i'r Ddeddf ddod i rym, ynghyd â gwelltyn plastig untro a throellwyr diodydd yn Lloegr.[83]

3.31 Dan y protocol, mae Gogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i Gyfarwyddeb yr UE ar Blastigau Untro a ddaeth i rym 1 Ionawr 2022. Mae'r Gyfarwyddeb yn

[78] House of Commons Library, Single use plastic: How do bans differ across the UK and EU?, Chwefror 2022
[79] The Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Scotland) Regulations 2021.
[80] Llywodraeth Cymru, Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), Rhagfyr 2022
[81] Mae plastig ocso-ddiraddadwy yn cynnwys ychwanegion sy'n ei wneud yn ddiraddadwy – h.y. mae'n torri'n ddarnau mân o'r enw microblastigau yn sydyn. Wedi dweud hynny, nid yw'n pydru ar lefel folecwlaidd neu bolymer, felly mae'r microblastigau yn parhau i fod yn yr amgylchedd.
[82] Defra, Far-reaching ban on single-use plastics in England, Ionawr 2023.
[83] The Environmental Protection (Plastic Straws, Cotton Buds and Stirrers) (England) Regulations 2020 a The Environmental Protection (Cotton Buds) (Scotland) Regulations 2019.

gwahardd y cyflenwad o blatiau, cyllyll a ffyrc, gwelltyn, ffyn balŵns, ffyn cotwm plastig untro, cwpanau polystyren wedi'u chwyddo a chynwysyddion bwyd, a chynhyrchion plastig ocso-diraddadwy. Mae'n ofynnol i Ogledd Iwerddon weithredu gofynion y Gyfarwyddeb.

3.32 Mae rheoliadau Llywodraeth yr Alban yn gwahardd cyflenwad a gwneuthuriad nifer o'r cynhyrchion dan sylw. Mae hyn yn groes i'r gwaharddiadau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd wedi gwahardd cyflenwad yn unig. Sicrhaodd Llywodraeth yr Alban eithriad a fyddai'n diystyru'r egwyddorion mynediad i'r farchnad mewn perthynas â chyflenwi'r cynhyrchion plastig sydd wedi'u gwahardd dan reoliadau Llywodraeth yr Alban. Cytunwyd ar yr eithriad dan y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff.[84]

***Sylwadau gan randdeiliaid***

3.33 Prin iawn yw'r sylwadau gan fusnesau a phrynwyr ynghylch effeithiau ymarferol y gwahaniaethau rhwng cyfyngiadau ar eitemau plastig untro mewn cenhedloedd gwahanol, a'r adegau gwahanol y cyflwynwyd nhw.

3.34 Yn yr Asesiad Effaith ar Fusnes a Rheoliadau a oedd yn cyd-fynd â rheoliadau Llywodraeth yr Alban, dywedodd cymdeithasau masnach o'r sectorau pecynnu bwyd a diod fod gwyriad wedi bod oddi wrth eitemau plastig un defnydd i opsiynau eraill yn ystod blynyddoedd diweddar.[85] Nodwyd bod y tuedd hwn wedi'i ysgogi gan sawl ffactor: pwysau gan brynwyr; cred bod buddsoddi mewn cynhyrchion sy'n cael eu hystyried yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd yn benderfyniad da o fewn busnes; y cyfeiriad a osodwyd gan Gyfarwyddeb Plastigau Untro yr UE; ac argaeledd dewisiadau amgen.

3.35 Yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau gweithgynhyrchu a sefydliadau manwerthu, cyrhaeddodd asesiad effaith Llywodraeth Cymru gasgliad cyffelyb, sef bod eitemau addas nad ydynt yn rhai plastig eisoes ar y farchnad ar gyfer y rhan fwyaf o'r eitemau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwahardd.[86]

3.36 Er bod eithriad i ddiystyru'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer cyflenwi'r cynhyrchion plastig perthnasol, mae Llywodraeth yr Alban wedi codi pryderon ynghylch y cyfnod o amser a gymerodd i gytuno ar yr eithriad a'i gwmpas (roedd Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi cefnogi

---

[84] Defra, Resources and waste: provisional common framework, Rhagfyr 2022.
[85] Llywodraeth yr Alban, Business and regulatory impact assessment: Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Scotland) Regulations 2021, Tachwedd 2021.
[86] Llywodraeth Cymru, Asesiadau effaith: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), Rhagfyr 2022.

eithriad ehangach).[87] Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi nodi bod cwmpas yr eithriad cyfredol yn golygu y bydd rhagor o eithriadau yn y maes hwn yn debygol.[88]

3.37 Cafwyd cyfnod o ychydig dros ddau fis pan oedd gwaharddiad Llywodraeth yr Alban ar waith, ond nid oedd yr offeryn statudol sy'n creu'r eithriad ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd anfodlonrwydd ymhlith cyflenwyr arlwyo a oedd wedi dewis cydymffurfio â'r gwaharddiad ond yn bryderus am golli gwerthiannau i gystadleuwyr a oedd wedi parhau i gyflenwi cynhyrchion plastig rhatach.[89] Dywedodd cyflenwyr hefyd eu bod yn teimlo pwysau i roi'r gorau i werthu cynhyrchion nad ydynt yn anghyfreithlon eto. Galwasant am negeseuon clir ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei werthu'n gyfreithlon, ac o ba bryd.[90]

## Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

### *Disgrifiad*

3.38 Fis Mai 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl),[91] sy'n addasu diffiniad Organebau Wedi'u Haddasu'n Enetig yn Lloegr i eithrio organebau penodol a grëwyd drwy dechnolegau bridio manwl. Mae bridio manwl yn defnyddio technoleg enetig i addasu planhigion ac anifeiliaid mewn ffyrdd a allai fod wedi digwydd yn naturiol neu wedi'u cynhyrchu drwy fridio traddodiadol. Bwriad y newid arfaethedig yw symleiddio'r broses o gael awdurdodaeth i farchnata planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u bridio'n fanwl, mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer awdurdodi Organebau Wedi'u Haddasu'n Enetig. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gall technolegau genetig newydd gynyddu cnwd, gwneud ein bwyd yn fwy maethlon ac arwain at gnydau sy'n fwy gwydn i glefydau a thywydd eithafol.[92] Mae'r Bil yn mynd i'r afael â chnydau ac anifeiliaid y mae eu genynnau wedi'u haddasu a'r bwyd a'r porthiant sy'n deillio ohonynt, ond ni fydd y

---

[87] Llywodraeth yr Alban, Letter from the Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture to the Convenor on Common Frameworks, Mawrth 2022.
[88] Llywodraeth yr Alban, Response from the Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture on the UK Internal Market Act Exclusions Process, Mai 2022.
[89] Press and Journal, Loophole uncovered in Scotland's single use plastics ban, Mehefin 2022 (paywall). Cyn i'r eithriad ddod i rym, ceisiodd o leiaf un manwerthwr ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i barhau i werthu eitemau plastig untro yn yr Alban.
[90] Press and Journal, Loophole uncovered in Scotland's single use plastics ban, Mehefin 2022 (paywall).
[91] Senedd y DU, Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, Chwefror 2023.
[92] Defra, Genetic Technology Bill to take on most pressing environmental problems of our time, Hydref 2022.

darpariaethau yn ymwneud ag addasu genynnau anifeiliaid yn dod i rym nes bod cyfundrefn reoliadol briodol ar waith.[93]

3.39 Bwriedir i'r newidiadau gwirioneddol arfaethedig ddod i rym yn Lloegr yn unig. Dan yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, os caiff planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u bridio'n fanwl eu cynhyrchu yn y rhan o'r DU lle mae'n gyfreithiol eu gwerthu (neu eu mewnforio iddi), yna mae modd eu gwerthu yn unrhyw genedl yn y DU heb fod angen cydymffurfio â gofynion a orfodwyd drwy reoliadau yno.

3.40 Mae'r UE wedi ymgynghori ar ddatblygu fframwaith cyfreithiol ar gyfer planhigion a gafwyd drwy dechnolegau genomig newydd penodol, yn gyffelyb i'r rheini a ddisgrifwyd fel rhai sydd wedi'u bridio'n fanwl gan Lywodraeth y DU.[94] Gallai ei chynigion gael effaith gyffelyb i rai o'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr; sef, ei gwneud hi'n haws marchnata'r planhigion y mae eu genynnau wedi'u haddasu, yn yr UE. Wedi dweud hynny, mae'n debyg bod unrhyw newid i gyfundrefn reoliadol yr UE yn debygol o ddod i rym yn hwyrach na'r newid i'r gyfraith yn Lloegr, ac ni fyddai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yr ymgynghorwyd arnynt hyd yn hyn yn berthnasol i anifeiliaid.

3.41 Mewn perthynas â'r Fframweithiau Cyffredin, deallwn fod gan y Bil y potensial i dorri ar draws (o leiaf o bosibl) pedwar Fframwaith Cyffredin dros dro: sef, Iechyd a Llesiant Anifeiliaid, Safonau Cyfansoddol Bwyd a Labelu, Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant, a Fframweithiau Cyffredin Amrywiaethau Planhigion a Hadau.

### ***Sylwadau gan randdeiliaid***

3.42 Mae pryderon wedi'u codi y gall ffermwyr yn Lloegr sy'n defnyddio cnydau wedi'u bridio'n fanwl gael mantais gystadleuol dros ffermwyr yn lleoedd eraill yn y DU, gan fod cnydau y mae eu genynnau wedi'u golygu â'r potensial i fod yn fwy gwydn i bla a chlefydau ac yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd.[95]

3.43 Yn ogystal, mae cyrff cynrychiadol ar gyfer amaethyddiaeth wedi codi pryder os bydd bridwyr planhigion yn Lloegr yn dechrau dibynnu ar dechnegau bridio manwl ac yn rhoi'r gorau i'w hen gynhyrchion, gallai hynny gyfyngu cyflenwad

---

[93] House of Commons Library, Briefing: Genetic Technology (Precision Breeding) Bill 2022-23, Tachwedd 2022.
[94] European Commission, Legislation for plants produced by certain new genomic techniques: consultation, Ebrill 2022.
[95] Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, All you need to know about gene editing in agriculture, Tachwedd 2022.

yr hadau sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru a'r Alban a chreu 'system ddwy ffordd ar gyfer bridio cnydau.'[96]

3.44 Mae Llywodraeth Cymru[97] a Llywodraeth yr Alban[98] hefyd wedi codi pryderon nad yw'r ddeddfwriaeth gynradd ddrafft yn gofyn i gynhyrchion sydd wedi'u bridio'n fanwl gael eu labelu felly. Nodant fod gan hyn oblygiadau posibl i allu prynwyr i wneud penderfyniadau dysgedig ynghylch yr hyn maent yn ei brynu, ac i orfodi cyfundrefnau datganoledig Organebau Wedi'u Haddasu'n Enetig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystyried sut mae darparu prynwyr â gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio technegau bridio manwl, gan gynnwys y posibilrwydd o gynlluniau labelu gwirfoddol neu orfodol, cofrestr gyhoeddus o Organebau Wedi'u Bridio'n Fanwl ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth prynwyr mwy cyffredinol.[99]

3.45 Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi mynegi eu hanfodlonrwydd yn gyhoeddus gyda'r lefel o ymgysylltiad rhyng-llywodraethol a gafwyd cyn cyhoeddi'r Bil. Dywedodd Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru fod y Bil, er ei fod wedi'i gyfyngu i Loegr, yn cael effeithiau pwysig ar draws y DU gyfan.[100] Dywedodd y Gweinidog nad oedd ymgysylltiad ystyrlon ar lefel Weinidogol cyn cyhoeddi'r Bil, a dim ond ychydig cyn hynny y cyflwynwyd swyddogion â phrin fanylion am y polisi. Mae Gweinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir Llywodraeth yr Alban wedi mynegi teimladau cyffelyb a'i siomedigaeth gan fod yr Alban wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r ddeddfwriaeth y diwrnod cyn cyflwyno'r Bil i Senedd y DU.[101]

3.46 Mynegodd y ddau Weinidog bryderon ynghylch trafodaethau perthnasol wedi'u hysgogi dan Fframweithiau Cyffredin ar ôl cyflwyno'r Bil, gan nodi y byddai'r drafodaeth cyn cyhoeddi wedi galluogi ystyriaeth ymlaen llaw o ddargyfeiriad posibl rhag y polisi.[102]

---

96 Holyrood.com, Will the Scottish Government's reluctance on gene-edited crops harm the agriculture sector?, Medi 2022.
97 Llywodraeth yr Alban, Genetic Technologies (Precision Breeding) Bill: letter to UK Government, Mehefin 2022.
98 Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), Rhagfyr 2022.
99 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Board update: The Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, Medi 2022.
100 Llywodraeth Cymru, Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl): llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Llywydd, Mehefin 2022.
101 Llywodraeth yr Alban, Genetic Technologies (Precision Breeding) Bill: letter to UK Government, Mehefin 2022.
102 Llywodraeth yr Alban, Genetic Technologies (Precision Breeding) Bill: letter to UK Government, Mehefin 2022.

## Bwyd a diod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr

### *Disgrifiad*

3.47 Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cyfyngiadau ar gynigion arbennig o ran prisiau a gosod bwyd a diod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr dan y Food (Promotion and Placement) (England) Regulations 2021.[103] Mae’r cyfyngiadau hyn ar leoli cynhyrchion sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr mewn lleoliadau gwerthu allweddol fel mannau talu, mynedfa siopau, ar waelod eiliau, a’u cyfwerth ar-lein yn dod i rym fis Hydref 2022. Bydd cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr yn ôl pris cyfaint, megis ‘prynu un a chael un am ddim’ neu ‘3 am 2’ yn dod i rym 1 Hydref 2023. Ers mis Ebrill 2022, mae busnesau mawr yn Lloegr hefyd wedi gorfod dangos gwybodaeth ynghylch calorïau ar fwyd oddi cartref, ar fwydlenni er enghraifft.

3.48 Yn haf 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru[104] a Llywodraeth yr Alban[105] ymgynghoriad ar wahân ar gynigion i gyfyngu ar gynigion arbennig ar fwyd a diod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban yn ceisio safbwyntiau ar gyfyngiadau ar brisiau a lleoliad, gan gynnwys cynigion i gynnwys bargeinion o brydau (‘*meal deals*’) yng nghategori cynigion arbennig o ran prisiau. Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Medi 2022. Mae’r ymatebion yn cael eu dadansoddi i fod yn sail i ddatblygiad y polisi a bydd dadansoddiad allanol yn cael ei gyhoeddi maes o law. Yn ogystal, roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pholisïau arfaethedig, gan gynnwys y gorfodiad i labelu calorïau wrth ddewis yn y sector y tu allan i’r cartref ac archwilio ffyrdd i leihau dwyster allfeydd bwyd poeth i fynd, yn enwedig ger ysgolion uwchradd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o’r ymatebion i’w hymgynghoriad fis Ionawr 2023.

3.49 Mae’n bosibl y bydd y rheoliadau yng Nghymru, Lloegr a’r Alban yn wahanol. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnwys gostyngiadau dros dro ar brisiau bwyd a diod sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr, megis cynigion arbennig ‘gostyngiad o 50%’, yng nghwmpas ei chyfyngiadau. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyfrif bargen o brydau fel hyrwyddo cyfaint o bethau, sy’n golygu y byddai deddfwriaeth yn cyfyngu cynhyrchion sy’n uchel mewn braster, halen a siwgr rhag cael eu cynnwys yng nghynigion bargeinion o brydau. Nid yw

[103] The Food (Promotion and Placement) (England) Regulations 2021.
[104] Llywodraeth yr Alban, Restricting promotions of food and drink high in fat, sugar or salt: consultation, Gorffennaf 2022.
[105] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach, Mehefin 2022.

rheoliadau Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn gwahardd gostyngiadau prisiau dros dro, na chynnwys bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr mewn bargeinion o brydau.

3.50 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i gyfyngu hyrwyddo bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr yng Ngogledd Iwerddon.

### *Sylwadau gan randdeiliaid*

3.51 Mae nifer o fanwerthwyr ledled y DU wedi rhoi'r gorau yn wirfoddol i hyrwyddo prynu mwy nag un cynnyrch ar gyfer prydau llai iachus, ac yn awyddus i gefnogi prynwyr i wneud penderfyniadau iachach. Maent hefyd wedi dweud wrthym fod gwahaniaethau rhwng rheoliadau ar hyrwyddo a lleoli bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr ym mhob cenedl, a gall ei gwneud hi'n fwy anodd gwerthu cynhyrchon ledled y DU.

3.52 Pwysleisiodd busnesau a ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyfyngiadau arfaethedig y gwerth o lynu wrth y ddeddfwriaeth yn Lloegr er mwyn osgoi'r hyn sydd, yn eu barn nhw, yn achosi cymhlethdod di-angen.[106] Dywedodd busnesau y dylai'r ddeddfwriaeth lynu wrth y cyfyngiadau diweddar yn Lloegr er mwyn osgoi heriau logisteg, costau ychwanegol a dryswch ar gyfer busnesau.[107]

3.53 Yn ogystal, awgrymodd un o gyfranogwyr bord gron yr OIM y gall gwahaniaethau mewn cyfyngiadau wneud e-fasnach yn fwy anodd, gan achosi costau a baich gweinyddol ar gyfer busnesau sydd angen cyfeirio gwybodaeth wahanol at brynwyr yn rhannau gwahanol y DU. Mae'r safbwynt hwn wedi'i adlewyrchu yn yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: pwysleisiwyd y cymhlethdod yn sgil y gwahaniaeth â Lloegr gan fusnesau sy'n masnachu ar-lein yn unig a ddadleuodd nad oes ganddynt yr 'apiau' penodol i'r wlad sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bob cenedl. Awgrymasant y byddai creu ap arall ar gyfer Cymru yn ddrud ac yn achosi dryswch i brynwyr.[108]

## Trapiau glud a maglau

### *Disgrifiad*

3.54 Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i gyd yn cymryd camau i wahardd y defnydd o drapiau glud, sef bordiau bach wedi'u

---

[106] Llywodraeth Cymru, Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach, Ionawr 2023.
[107] Llywodraeth Cymru, Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach, Ionawr 2023.
[108] Llywodraeth Cymru, Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach, Ionawr 2023.

gorchuddio â glud cryf, nad yw'n sychu, sydd fel arfer yn cael eu defnyddio i ddal llygod mawr dan do. Mae pryderon bod trapiau glud yn greulon, yn aml yn achosi dioddefaint hir, ac weithiau yn dal rhywogaethau na fwriadwyd eu dal, fel draenogod a chathod.[109] Mae Llywodraeth yr Alban yn cynnig gwahardd y gwerthiant a'r defnydd o drapiau glud, gan gynnwys ar gyfer arbenigwyr rheoli plâu, yn ystod y tymor seneddol presennol (h.y. cyn mis Mai 2026).[110] Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwahardd y defnydd o drapiau glud (drwy Fil Amaethyddiaeth (Cymru), sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd) ar gyfer fertebratau,[111] ac mae Llywodraeth y DU yn gwahardd y defnydd o faglau glud o fis Ebrill 2024, ond bydd arbenigwyr rheoli plâu yn gallu gwneud cais am drwydded i barhau i'w defnyddio dan amgylchiadau eithriadol.[112] Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i wahardd y gwerthiant na'r defnydd o drapiau glud yng Ngogledd Iwerddon.

3.55 Mae llywodraethau hefyd yn ystyried eu dull o ddefnyddio maglau, a ddefnyddir i ddal neu gyfyngu anifeiliaid gwyllt, llwynogod gan amlaf. Mae maglau sy'n cloi ar eu pen eu hunain wedi bod yn anghyfreithlon yn y DU ers 1981, ond mae llywodraethau yn dal i ystyried eu dull gweithredu mewn perthynas â maglau rhydd.[113] Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cynnwys gwaharddiad rhag defnyddio pob magl, ac mae Comisiwn Llesiant Anifeiliaid yr Alban[114] wedi cyhoeddi papur yn argymell i Lywodraeth yr Alban wahardd eu gwerthiant a'u defnydd.[115] Nid oes unrhyw gynlluniau cyfredol hysbys i wneud maglau rhydd yn anghyfreithlon yn Lloegr na Gogledd Iwerddon.

### *Sylwadau gan randdeiliaid*

3.56 Nododd nifer o lywodraethau a deddfwriaethau fod yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi dylanwadu ar eu penderfyniad ynglŷn ag a ddylid gwahardd y gwerthiant o drapiau glud. Nododd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Blaenorol Defra, dan reolau marchnad fewnol y DU, nad yw'n ymarferol gwahardd y gwerthiant o faglau glud yn Lloegr oherwydd bod modd eu prynu yn unrhyw le arall yn y DU.[116] Nodwyd gan Lywodraeth yr Alban ei bod yn

---

[109] Llywodraeth y DU, Government backs Bill banning the use of glue traps for pest control Mehefin 2021.
[110] Llywodraeth yr Alban, Action to improve animal welfare (glue traps), Ionawr 2022.
[111] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol - Bil Amaethyddiaeth (Cymru), Medi 2022.
[112] Glue Traps (Offences) Act 2022.
[113] Nid oes un diffiniad pendant o faglau 'sy'n cloi ar eu pen eu hunain' a 'rhydd', ond mae maglau sy'n cloi ar eu pen eu hunain yn tynhau'n raddol wrth i anifail drio dod yn rhydd ohoni. Dylai magl rydd ymlacio pan mae'r anifail yn rhoi'r gorau i dynnu.
[114] Sefydlwyd grŵp ymgynghorol i ddarparu cyngor annibynnol i Weinidogion yr Alban ar lesiant anifeiliaid sydd ag ymdeimladol. Gweler ei Gylch Gorchwyl yma.
[115] Llywodraeth yr Alban, Comisiwn Llesiant Anifeiliaid yr Alban - trapping of terrestrial wild animals using snares: position paper, Rhagfyr 2022.
[116] Senedd y DU, Hansard, House of Lords debate: Glue Traps (Offences) Bill second reading, Mawrth 2022.

bwriadu gwahardd y gwerthiant o drapiau glud ar gyfer llygod mawr yn yr Alban, cyn belled ag y gellir cyflawni hyn dan delerau'r Ddeddf Marchnad Fewnol.[117]

## Meysydd posibl eraill i'w nodi yn 2023-24

3.57 Mae Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2022 yn rhoi pwerau i Lywodraeth y DU a, pryd bynnag mae'r rheoliad y tu hwnt i gymhwysedd datganoledig, y Llywodraethau Datganoledig i gadw, ailddatgan, diddymu a disodli a diweddaru deddfau penodol sy'n deillio o'r UE.[118] Bwriad darpariaethau'r Bil yw diddymu (oni bai eu bod wedi'u dargadw) neu alluogi adolygiad o ddeddfau penodol o'r UE sydd wedi'u gwarchod, gan ei gwneud hi'n haws eu diwygio neu gael gwared arnynt. Os caiff y Bil ei orfodi ar ei ffurf bresennol ac mae llywodraethau yn ymgymryd â dulliau gwahanol ym meysydd o gymhwysedd datganoledig, gall hyn arwain at gynnydd yn y gwahaniaethau rheoliadol rhwng pedair cenedl y DU. Byddwn yn monitro datblygiadau perthynol dros y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys newidiadau rheoliadol sydd ynghlwm â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, gyda'r posibilrwydd o effeithio ar farchnad fewnol y DU.

3.58 Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mabwysiadodd Llywodraeth yr Alban y polisi y bydd cyfraith yr Alban, pryd bynnag sy'n briodol, yn parhau i fod ynghlwm wrth gyfraith yr UE.[119] Pasiodd Senedd yr Alban yr UK Withdrawal from the European Union (Continuity) (Scotland) Act 2021, a ddaeth i rym 29 Ionawr 2021.[120] Mae Adran 1 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion yr Alban israddio deddfwriaeth er mwyn cadw cyfraith ddatganoledig yr Alban ynghlwm â chyfraith yr UE. Mae defnyddio'r pŵer i lynu wrth gyfraith yr UE yn ddisgresiynol, ac mae Gweinidogion yr Alban wedi mynegi y caiff ei ddefnyddio dim ond pan na ellir dibynnu ar bwerau domestig neu pan yr ystyrir ei bod yn amhriodol gwneud hynny.[121] Er mai dim ond unwaith y defnyddwyd y pŵer hyd yn hyn,,[122] gall y polisi o aliniad parhaus yn ogystal â'r pŵer ei hun gynyddu'r tebygolrwydd yn y dyfodol y bydd cyfreithiau a safonau newydd yr UE yn cael eu gweithredu yn yr Alban[123] Ym mis Hydref

[117] Llywodraeth yr Alban, Wildlife management: consultation - Trapping and snaring, Hydref 2022.
[118] Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).
[119] Llywodraeth yr Alban, Scotland's Global Affairs Framework, Mai 2022.
[120] UK Withdrawal from the European Union (Continuity) (Scotland) Act 2021.
[121] Llywodraeth yr Alban, Statement of Policy by the Scottish Ministers in exercise of the power in Section 1 of the UK Withdrawal from the European Union (Continuity) (Scotland) Act 2021, Mai 2022.
[122] The Public Water Supplies (Scotland) Amendment Regulations 2022.
[123] Dan delerau'r Protocol, mae rhannau penodol o gyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Felly, gall cyfraith yr UE y mae Llywodraeth yr Alban yn glynu wrthi hefyd fod yn berthnasol, neu wedi'i gweithredu, yng Ngogledd Iwerddon, a hynny oherwydd y Protocol.

2022, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adroddiad ar lynu wrth Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.[124] Fel y nodwyd yn fanwl yn yr adroddiad, hyd yn hyn, nid oes llawer o achosion o ddargyfeirio wedi bod a natur dechnegol neu weithredol sydd iddynt ar y cyfan.[125]

3.59 Cyhoeddwyd Rhaglen Waith UK REACH 2022-23 ym mis Mehefin 2022.[126] Bydd yn cwmpasu Prydain Fawr, a bydd rheoliadau cemegion yr UE yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae deg sylwedd nad ydynt wedi'u hadnabod â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn UK REACH ac yn cael eu targedu ar gyfer eu cyfyngu yn yr UE. Yn ogystal, cyhoeddodd yr UE Fap Llywio Cyfyngiadau drafft ar gyfer cemegion fis Ebrill 2022, a fyddai'n gosod rhaglen dreigl o gyfyngiadau ar grwpiau o gemegion.[127] Bydd y dulliau gwahanol sy'n cael eu gwneud ym Mhrydain Fawr a'r UE yn arwain at wahaniaethau rhwng y sylweddau sy'n dderbyniol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, a'r cynhyrchion a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio'r sylweddau hyn y gellir eu gwerthu yn rhannau gwahanol o'r DU.[128]

3.60 Gall amrywiaeth rheoliadol arall ddod i'r amlwg yn y dyfodol rhwng Gogledd Iwerddon a chenhedloedd eraill y DU yn rhinwedd yr hyn a elwir yn 'wahaniaeth goddefol', h.y. pan mae'n ofynnol i Ogledd Iwerddon ddilyn rhai agweddau penodol ar gyfraith yr UE dan y Protocol ac un (neu fwy) o genhedloedd eraill yn dargyfeirio rhag yr un rheol neu reoliad.

3.61 Fis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ddadansoddiad o ymatebion i'w hymgynghoriad ar dynhau'r rheolau ar hysbysebu a hyrwyddo cynhyrchion e-sigaréts.[129] Lansiwyd yr ymgynghoriad i ymateb i bryderon y gall hysbysebu cynhyrchion e-sigaréts hyrwyddo'r cynhyrchion hyn ar gyfer eu defnyddio'n gyffredinol, yn hytrach na fel cymorth dros dro i roi'r gorau i ysmygu. Dywedodd Llywodraeth yr Alban y bydd adroddiad y dadansoddiad a'r ymatebion eu hunain yn sail i reoliadau yn y pendraw yn cyfyngu hyrwyddo a hysbysebu cynhyrchion e-sigaréts.[130] Nid oes cyfyngiadau o'r fath ar waith

---

[124] Senedd yr Alban, Alignment with European Union Law: A Report for the Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee, Hydref 2022.

[125] SPICe Spotlight, Guest Blog: Mapping alignment with EU law, Rhagfyr 2022.

[126] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, The Agency for UK REACH Work Programme 2022/23, Mehefin 2022.

[127] Y Comisiwn Ewropeaidd, Restrictions Roadmap under the Chemicals Strategy for Sustainability - Commission Staff Working Document, Ebrill 2022.

[128] Mae rhai awdurdodiadau a chyfyngiadau ar weithgynhyrchu a chyflenwi cemegion dan y Rheoliad REACH wedi'u heithrio rhag yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau dan Atodlen 1, adran 6-8 y Ddeddf.

[129] Llywodraeth yr Alban, Vaping products - tightening rules on advertising and promoting: consultation analysis, Medi 2022.

[130] Llywodraeth yr Alban, Tightening rules on advertising and promoting vaping products - feedback, Medi 2022.

ar hyn o bryd yn lleoedd eraill y DU ac nid oes yr un llywodraeth arall wedi ymgynghori ar gyflwyno newidiadau tebyg.

3.62 Cafodd y Ddeddf Fireworks and Pyrotechnic Articles (Scotland) 2022 ei phasio gan Senedd yr Alban ar 29 Mehefin 2022 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 10 Awst 2022.[131] Yn sail i'w chyflwyno yn bennaf oedd pryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd a llesiant anifeiliaid. Daeth y darpariaethau cyntaf i rym ar 10 Hydref 2022.[132] Bydd darpariaethau pellach, gan gynnwys gofyniad i bobl sydd naill ai'n prynu tân gwyllt, yn meddu ar dân gwyllt neu'n eu defnyddio yn yr Alban gael trwydded i wneud hynny, yn ogystal â chyflwyno cyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn pan geir gwerthu a defnyddio tân gwyllt, yn dod i rym yn raddol gyda disgwyl i'r system drwyddedu ddod i rym ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25. Yn amodol ar unrhyw effaith yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, bydd hyn yn rhoi cyfyngiadau sylweddol ar y farchnad ar gyfer tân gwyllt yn yr Alban, nad ydynt ar waith yng Nghymru na Lloegr. Mae cyfundrefn drwyddedu ar gyfer prynu a defnyddio tân gwyllt wedi bod ar waith yng Ngogledd Iwerddon ers sawl blwyddyn.

## Casgliad

3.63 Dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd mae cyfundrefn marchnad fewnol y DU wedi bod ar waith. Fel y nodwyd yng nghasgliad y bennod flaenorol, mae nifer fach o fusnesau yn masnachu ar draws cenhedloedd y DU, a phrin yw'r gwahaniaeth rheoliadol ers i'r Ddeddf ddod i rym, ac mae'r rhan fwyaf o fusnesau heb brofi unrhyw wahaniaeth rheoliadol o gwbl. Hyd yn hyn dim ond ychydig iawn o ddatblygiadau rheoliadol a all effeithio ar farchnad fewnol y DU, mae rhai datblygiadau pwysig wedi digwydd, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau amgylcheddol a chynaliadwy. Mae nifer o'r datblygiadau hyn o bwys sylweddol i'r busnesau a sefydliadau'r trydydd sector yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ganddynt, ac mae rhai – er enghraifft y cyfyngiadau ar werthu mawn a chynhyrchion plastig untro, a'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) – wedi taflu goleuni ar effeithiau ymarferol posibl yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a rôl Fframweithiau Cyffredin.

3.64 Mae'r casgliad hwn yn tynnu ar rai themâu cyffredin mewn perthynas â'r datblygiadau rheoliadol dan sylw yn y bennod hon. Mae pryderon am gostau ychwanegol, cystadleuaeth rhwng busnesau mewn gwahanol genhedloedd ac effaith amserlenni gwahanol yn nodwedd yn ymatebion busnesau i'r amrywiol

---

[131] Fireworks and Pyrotechnic Articles (Scotland) Act 2022.

[132] Senedd yr Alban, Fireworks – SPICe Spotlight, Hydref 2022.

ddatblygiadau rheoliadol ar draws meysydd polisi gwahanol. Gobeithiwn y bydd pwysleisio'r materion hyn yn cynorthwyo llunwyr polisi i ystyried effaith bosibl cynigion polisi ar fusnesau mewn cenhedloedd unigol a ledled y DU.

3.65 Ar hyn o bryd, mae ymwybyddiaeth am y Ddeddf, gan gynnwys yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, yn isel, ac mae busnesau, cyfreithwyr a seneddwyr wedi codi cwestiynau ynghylch sut fyddai'r Ddeddf yn effeithio ar reoliadau penodol. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth am y Ddeddf ac ansicrwydd ynghylch ei chymhwyso yn darparu cyd-destun ar gyfer sylwadau rhanddeiliaid ar effaith bosibl datblygiadau rheoliadol. Byddwn yn monitro'r maes hwn oherwydd gall ymwybyddiaeth a sicrwydd ynghylch gweithredu'r Ddeddf, yn ogystal â'r swm o weithgarwch rheoliadol a all effeithio ar weithrediad y farchnad fewnol, gynyddu gydag amser.

*Costau ychwanegol a chwarae teg rhwng cenhedloedd*

3.66 Pan mae busnesau a chymdeithasau masnach yn mynegi pryder am ddatblygiad rheoliadol, yn aml mae hyn oherwydd eu bod yn disgwyl rhagor o gostau ynghlwm â chydymffurfio (er enghraifft, addasu gwefan a system ôl-brosesu ar gyfer cwsmeriaid mewn lleoliadau gwahanol) neu oherwydd eu bod yn disgwyl y bydd newid rheoliadol yn rhoi rhai busnesau dan anfantais mewn cymhariaeth ag eraill. Mae'r syniad hwn y gallai chwarae teg fod wedi'i gyfaddawdu yn cyflwyno ei hun ar sawl ffurf – er enghraifft, gall rheoliadau yn rhai cenhedloedd fod yn fwy manteisiol/anfanteisiol nag eraill neu efallai nad yw rhai cystadleuwyr yn cydymffurfio â rheoliadau newydd, gan roi busnesau sy'n cydymffurfio dan anfantais berthynol.

*Busnesau yn ystyried amserlenni gwahanol fel cymhlethdod ychwanegol*

3.67 Mae gan lywodraethau resymau polisi dros fod eisiau cyflwyno rheoliad ar adeg benodol, neu efallai yr hoffent weithredu'n brydlon er mwyn cyflawni'r amcan maent yn ei ddymuno yn gynt. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i gyd wedi cyhoeddi bwriad i weithredu mewn perthynas â mawn mewn garddwriaeth, gyda'r tair llywodraeth yn gweithio i amserlenni gwahanol. Awgrymwyd bod manteision i un neu fwy o lywodraethau yn symud yn gynt nag eraill: fel y noda'r Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff, gall gwahaniaethau yrru safonau uwch a chynhyrchu arloesedd.[133] Ar y llaw arall, clywsom gan fusnesau eu bod yn credu bod cyflwyno rheoliadau ar wahân i fynd i'r afael ag amcanion polisi sy'n gyffelyb i'w gilydd mewn amserlenni gwahanol yn ffactor a allai

---

[133] Defra, Resources and waste: provisional common framework, Rhagfyr 2022.

waethygu'r effeithiau negyddol a ganfyddir mewn perthynas â gwahaniaeth rheoliadol rhwng cenhedloedd y DU.

*Diffyg ymwybyddiaeth am y Ddeddf a'i heffeithiau posibl*

3.68 Drwy ein gwaith yn ymgysylltu â busnesau ac adolygu sylwadau ar gyfryngau yn ymwneud â datblygiadau rheoliadol, megis ar y gwaharddiadau amrywiol ar gynhyrchion plastig untro, ymddengys nad yw nifer o randdeiliaid yn ymwybodol o'r Ddeddf, nad ydynt yn deall sut all yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad fod yn berthnasol i'w sefyllfa, neu eu bod yn ansicr sut all yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad weithio er mwyn bod eisiau dibynnu arnynt. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn ei gwneud hi'n llai tebygol y bydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn cyflawni eu heffaith fwriadedig, sef darparu sicrwydd parhaus i bobl a busnesau y gallant weithio a masnachu'n rhydd ar draws y DU gyfan.[134]

*Ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl y Ddeddf ar reoliad penodol*

3.69 Mae rhanddeiliaid sydd â diddordeb manwl yn y Ddeddf, gan gynnwys cyfreithwyr a phwyllgorau seneddol, wedi trafod yr ansicrwydd, yn absenoldeb cyfraith achos, ynghylch sut fydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn rhyngweithio â pholisïau penodol.[135] Gall y diffyg sicrwydd hwn fod yn uwch pan gaiff polisi ei weithredu drwy gyfuniad o ddeddfwriaeth ac arweiniad anstatudol.

*Ymgysylltiad rhyng-llywodraethol ar gam cynnar o ddatblygu polisi*

3.70 Yn rhai o'r enghreifftiau a drafodwyd uchod, gan gynnwys y gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig untro a maglau gliw, mae tebygrwydd mawr rhwng dulliau gweithredu llywodraethau mewn cysylltiad â'r rheoliad – er bod rhai gwahaniaethau ym mhob achos. Clywsom gan lywodraethau, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector y gallai trafodaeth ryng-llywodraethol yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi (er enghraifft, drwy Fframwaith Cyffredin perthnasol) helpu i wneud y mwyaf o gyfleoedd i adnabod a throsoleddu'r tebygrwydd hyn, gan helpu i alluogi dull cydlynol ar draws cenhedloedd a/neu sicrhau bod gwahaniaethau rhwng dulliau'r cenhedloedd yn cael eu rheoli'n dda.

3.71 Byddwn yn adrodd ar effaith datblygiadau rheoliadol ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU mewn adroddiadau blynyddol sydd i ddod.

---

[134] United Kingdom Internal Market Act 2020 – Explanatory Notes, paragraff 1.
[135] Codwyd hyn yn nhrafodaeth bord gron yr OIM gyda chyfreithwyr. Gweler hefyd Senedd Cymru, Adroddiad ar y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), Hydref 2022.

# Atodiad A: Data masnach a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

1. Mae'r Atodiad hwn yn archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch masnach oddi mewn i'r DU, gan gynnwys:

    *(a)* Cyhoeddiadau cenedlaethol.

    *(b)* Matricsau Cyfrifyddu Cymdeithasol.

## Cyflwyniad

2. Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn darparu ystadegau'n annibynnol ar eu mewnforion a'u hallforion perthynol â gweddill y DU (rUK yn Saesneg). Nid yw Lloegr yn cynhyrchu ystadegau ar fasnach oddi mewn i'r DU.

3. Mae pob llywodraeth ddatganoledig yn cyhoeddi ystadegau masnach i fod yn sail i ddatblygu polisi economaidd. Mae rhai llywodraethau datganoledig wedi cynhyrchu a chyhoeddi data masnach oddi mewn i'r DU ers blynyddoedd, ac mae eraill wedi dechrau gwneud hynny'n fwy diweddar. Golyga hyn fod yr ystod a chymharedd data yn amrywio'n sylweddol ymhlith cenhedloedd y DU. Ar adeg cadarnhau'r adroddiad hwn, y data masnach oddi mewn i'r DU mwyaf diweddar ar gyfer mewnforion yr Alban yw Ch3 2022, gyda data manwl ar allforion ar gael hyd at 2019. Y data masnach oddi mewn i'r DU mwyaf diweddar ar gyfer Cymru yw 2019 ac ar gyfer Gogledd Iwerddon yw 2021.

4. Mae ystadegau masnach oddi mewn i'r DU ar gyfer Cymru yn cael eu hystyried yn 'ystadegau arbrofol' ar hyn o bryd, h.y. ystadegau yn y cam profi a heb eu datblygu'n llawn eto. Mae ystadegau ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gyfer rUK yn Ystadegau Gwladol, sy'n golygu eu bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Wedi dweud hynny, yn yr un modd â phob amcangyfrif yn seiliedig ar arolwg, maent yn amodol ar gafeatau a gallant gynnwys dadansoddiad yn seiliedig ar faint sampl bach. Felly, er gall y data gynnig cipolwg gwerthfawr ar economeg marchnad fewnol y DU, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli data am fasnach oddi mewn i'r DU ar ei ffurf bresennol.

5. Mae'r ystadegau a gyhoeddwyd gan y llywodraethau datganoledig yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan sampl o fusnesau ar gyfer mewnforion ac allforion o nwyddau a gwasanaethau,[136] yn ogystal â ffynonellau

[136] Ac eithrio mewnforion yr Alban, sy'n cael eu cyfrifo'n anuniongyrchol o'r balans masnach.

eraill o wybodaeth masnach, fel data gweinyddol, pwysoli a mesur y canlyniadau gros er mwyn cyrraedd cyfanswm amcangyfrifon cynrychiadol ar gyfer y genedl. Oherwydd gwahaniaethau methodolegol rhwng yr ystadegau a gynhyrchwyd gan bob llywodraeth ddatganoledig, data CTHEM a datganiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, nid oes modd cymharu'n uniongyrchol y gwahanol ffynonellau.

6. Mae'r data masnach a gyhoeddwyd gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a drafodir isod yn seiliedig ar fusnesau wedi'u samplu ar y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR),[137] yr ystyrir y ffynhonnell swyddogol fwyaf manwl gywir a chynhwysfawr o ddata poblogaeth busnes sydd ar gael. Wedi dweud hynny, dylid nodi nad yw'r IDBR yn darparu gwybodaeth lawn ynghylch poblogaethau busnes yn y DU. Yn benodol, ni chaiff busnesau nad oes ganddynt gynllun talu wrth ennill neu sydd y tu hwnt i'r trothwy TAW[138] eu cynnwys.

7. Bydd datganiad masnach pob llywodraeth ddatganoledig hefyd yn eithrio amcangyfrifon rhag rhai sectorau fel y diffinnir gan Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007 (SIC).[139] Mae pob datganiad wedi eithrio busnesau yn y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn (sectorau SIC a ddiffinnir fel 'Sector O'). Mae data Cymru a'r Alban wedi eithrio 'Gweithgareddau aelwydydd fel cyflogwyr' a 'Gweithgareddau sefydliadau y tu hwnt i ffiniau'r wlad' (adrannau SIC T ac U, yn y drefn honno). Trafodir eithriadau pellach sy'n benodol i bob llywodraeth ddatganoledig isod.

8. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo casglu a chyhoeddi data cyson a chynhwysfawr ar fasnach oddi mewn i'r DU drwy Strategaeth Ddata y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

***Yr Alban***

9. Mae dwy prif ffynhonnell ddata ar fewnforion ac allforion yr Alban gyda'r rUK wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth yr Alban. Mae Export Statistics Scotland (ESS) yn adrodd data blynyddol ar allforion rhyngwladol ac allforion i weddill y DU o'r

---

[137] Gweler y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR) - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).
[138] Trothwy'r trosiant trethadwy, sy'n pennu pa un ai a oes rhaid i fusnes gofrestru ar gyfer TAW, yw £85,000 ar hyn o bryd a bydd yn parhau ar y lefel hon hyd at 31 Mawrth 2024. Trothwy'r trosiant trethadwy, sy'n pennu pa un ai a all busnes wneud cais am ddatgofrestru, yw £83,000.
[139] Gweler UK SIC 2007 - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).

Alban.[140] Mae Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol Cynnyrch Domestig Gros yr Alban yn adrodd data chwarterol a blynyddol gyda'r rUK a gweddill y byd.[141]

10. Mae datganiadau'r ESS a QNAS wedi'u dynodi fel Ystadegau Gwladol, sy'n sicrhau annibynniaeth rhag Gweinidogion yr Alban a chydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, fel yr aseswyd gan Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae statws Ystadegau Gwladol yn darparu sicrwydd ar ansawdd y data a'r fethodoleg a ddefnyddwyd. Wedi dweud hynny, mae'r data yn dal i fod yn destun cafeatau a rhybuddion, gan gynnwys y posibilrwydd o newidiadau yn y dyfodol.

11. Defnyddir y Global Connections Survey (GCS) a ffynonellau data eraill i gynhyrchu data allforio ar gyfer yr ESS a QNAS.[142] Mae'r data o QNAS ar allforion ar ôl y flwyddyn ESS ddiweddaraf, sef 2019 ar hyn o bryd, wedi'i amcangyfrif fel cyfran osodedig o allbwn chwarterol pob grŵp cynnyrch fel y manylir mewn tablau cyflenwad-defnydd blynyddol (gyda rhai addasiadau mân iawn). Mae natur dros dro data allforio oddi mewn i'r DU QNAS ar ôl 2019 yn golygu nad yw wedi'i ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

12. Mae data poblogaeth GCS yn seiliedig ar y Gofrestr Ryng-adrannol o Fusnesau, sy'n targedu'r cwmnïau sy'n allforio fwyaf yn yr Alban – er bod pob cwmni sydd â 100 neu fwy o gyflogeion yn cael eu samplu, ni waeth beth yw eu statws allforio.

13. Cafodd sampl o 6,544 o fusnesau sy'n gweithredu yn yr Alban eu gwahodd i gymryd rhan yn GCS 2019 a chafwyd ymatebion (gan gynnwys dim ymateb o gwbl) gan oddeutu 768 o gwmnïau, a gynrychiolodd cyfradd ymateb o 13%. Ymhellach i'r GCS, caiff amcangyfrifon perthnasol ar gyfer busnesau yn yr Alban eu ceisio o ffynonellau swyddogol a gweinyddol a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhannau eraill o Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, gan gynnwys yr Arolwg Busnes Misol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Arolwg Masnach Rhyngwladol mewn Gwasanaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddir y ffynonellau hyn i amcangyfrif gwerthoedd a/neu gyfrannau allforio. Ceisir trosiant, ar gyfer y rhan fwyaf o gwmnïau, o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).

14. Mae'r QNAS yn cyflwyno data ar fewnforion ac allforion (wedi'u haddasu'n dymhorol ai peidio) a fasnachwyd rhwng ardraeth yr Alban a'r rUK ar gyfer y

---

[140] Gweler y datganiad diweddaraf yn Export statistics Scotland: 2019 - gov.scot (www.gov.scot) a rhagor o wybodaeth fwy cyffredinol yn Export statistics - gov.scot. Mae'n bosibl gwirio am ddatganiadau newydd yn Economy statistics - gov.scot.

[141] Gweler y datganiad diweddaraf yn GDP Quarterly National Accounts: 2022 Quarter 2 (Ebrill i Fehefin), yn y Tablau cyfres amser atodol a'r Tablau crynodeb cyfrifon cenedlaethol Arall. Mae'r QNAS yn bwydo i ddatganiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef GDP, UK regions and countries - Office for National Statistics.

[142] Gweler About Export Statistics Scotland - gov.scot.

cyfnod rhwng 1998 a 2022 (yn flynyddol a chwarterol) y gellir eu defnyddio i gyrraedd balans masnach. Mae datganiad diweddar QNAS hefyd yn adrodd data arbrofol ar gyfer un cyfnod gan ddefnyddio mesurau cyfaint cadwynog yn hytrach na phrisiau cyfredol.

15. Mae canllawiau ESS yn rhybuddio defnyddwyr i ddehongli amcangyfrifon ar gyfer allforion i'r rUK yn ofalus. Y rheswm dros hyn yw:

   *(a)* Nad oes unrhyw ofynion statudol ar gyfer busnesau i gasglu gwybodaeth ariannol yn is na lefel y DU; a

   *(b)* Gall busnesau o rai sectorau, yn enwedig y rheini sy'n weithredol mewn gwasanaethau, ei chael hi'n anodd meintoli eu hallforion ac adnabod preswylfan terfynol eu cwsmeriaid.

16. Yn ogystal, dylid nodi bod amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn destun adolygiad gan fod gwybodaeth newydd yn cael ei darparu gan gwmnïau neu ddata pellach yn cael ei gasglu. Mae'r datganiad diweddaraf yn cynnwys tabl o grynodeb sy'n mesur y newidiadau a wnaethpwyd i ddata blynyddol blaenorol.

17. Mae rhybuddion eraill yn ymwneud â newidiadau posibl dros amser i ddosbarthiad busnes. Er mai nod y fethodoleg yw lleihau effaith newidiadau yn nosbarthiad, dylid nodi y gall rhai cwmnïau symud ar draws grwpiau diwydiant rhwng blynyddoedd, yn ogystal â newid eu maint. Yn ogystal â'r eithriadau a nodwyd ym mharagraff 7 uchod, mae ESS hefyd yn eithrio echdynnu petroliwm crai a nwy naturiol (SIC 6.1 a 6.2).

### *Cymru*

18. Y ffynhonnell ddata ddiweddaraf ar gyfer ystadegau masnach oddi mewn i'r DU yn achos Cymru yw Arolwg Masnach Cymru 2019.[143] Mae'r data a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn y datganiad wedi'u labelu'n ystadegau arbrofol gan fod angen datblygu'n llawn y fethodoleg a ddefnyddwyd ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ystadegau.

19. Mae Arolwg Masnach Cymru yn seiliedig ar ddetholiad cychwynnol o oddeutu 34,000 o fusnesau sydd wedi adrodd yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau eu bod yn gweithredu yng Nghymru ac yn cyflogi tri neu mwy o bobl. Ar y cyfan, detholwyd sampl o 8,000 o fusnesau i gwblhau Arolwg Masnach Cymru.

[143] Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adran hon ar ddata Cymru yn dod o'r prif adroddiad, yr adroddiad ansawdd, a'r adroddiad technegol ar gyfer Arolwg Masnach Cymru, oni nodir fel arall. Gweler Arolwg Masnach Cymru: 2019, Arolwg Masnach Cymru: adroddiad ansawdd, ac Arolwg Masnach Cymru: adroddiad technegol, 2019.

Amcangyfrifir bod y sampl yn cyfrif am 89% o drosiant yng Nghymru gan fusnesau sy'n cyflogi tair neu fwy o unedau.

20. Cafodd Arolwg Masnach Cymru 2019 gyfradd ymateb o oddeutu 16% (1,287 o ymatebwyr) mewn perthynas â busnesau a gwblhaodd adrannau gwerthiannau a/neu bryniannau'r arolwg ac na wnaethant fflagio unrhyw anghysondebau yn eu data, a gyfansoddodd sylfaen y dadansoddiad. Gall y gyfradd ymateb isel effeithio ar ddibynadwyedd rhai dadansoddiadau, ond gellir ystyried bod maint y sampl yn weddol fawr a chadarn ar y cyfan.

21. Fel y nodwyd uchod, mae rhai cafeatau yn ymwneud â'r fethodoleg a'r data sydd ar gael wedi arwain at ystadegau Arolwg Masnach Cymru yn cael eu labelu'n ystadegau arbrofol. Mae'r prif gyfyngiadau yn ymwneud ag ymdriniaeth a chynrychiolaeth anghyflawn, dibynadwyedd rhai ymatebion a'r sylfaen fach i dynnu amcangyfrifon oddi arni ar gyfer rhai dadansoddiadau.

22. Mae'r gweithdrefnau samplu a mesur y canlyniadau gros a fabwysiadwyd i gasglu'r lefelau cyfanswm masnach ar gyfer Cymru yn golygu y gall fod diffyg cynrychioldeb yn yr amcangyfrifon. Yn benodol, nid yw Arolwg Masnach Cymru yn ymdrin â'r economi gyfan ac nid yw'n cynnwys gwerthiannau uniongyrchol i'r prynwr ac mae'n bosibl felly nad yw'n adlewyrchu'n llawn i ba raddau mae marchnadoedd wedi'u hintegreiddio. Felly, ni ddylid ei ddefnyddio i fesur balans masnach. Ar ben hynny, cafodd rhai busnesau hi'n anodd neilltuo gwerthiannau i gwsmeriaid wedi'u lleoli yn rhannau eraill y DU neu adnabod a fyddai rhai cynhyrchion yn cael eu dosbarthu fel nwyddau neu wasanaethau. Yn ogystal, mae rhai dadansoddiadau yn seiliedig ar sampl fach, sy'n golygu efallai nad yw'r canlyniadau yn rhai cadarn – pwysleisir achosion fel hyn yn y datganiad.[144]

### *Gogledd Iwerddon*

23. Mae Ystadegau Masnach Economaidd Gogledd Iwerddon (NIETS) (yr Ystadegau Gwerthiannau ac Allforio Economi Eang gynt) yn darparu'r data diweddaraf ar fasnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr ar brisiau cyfredol.[145] Y NIETS yw canlyniad ymateb Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Cymru (NISRA) i gais Strategaeth Economaidd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i wella

[144] Mae rhybuddion pellach yn ymwneud â: cadwyn gyflenwi – gall symudiad nwyddau drwy gadwynau cyflenwi oddi mewn i'r DU guddio tarddiad rhyngwladol neu gyrchfan derfynol yng nghanlyniadau Arolwg Masnach Cymru; gwerthoedd heb eu neilltuo – mae nifer o achosion lle pwysleisir data gwerthiannau neu bryniannau 'heb eu neilltuo', er enghraifft lle adroddodd busnesau werth nad oeddent yn gallu ei ddadansoddi a'i neilltuo ymhellach yn ôl cyrchfan.

[145] Am wybodaeth ynghylch y cyhoeddiadau diweddaraf, gweler Current publication - Broad Economy Sales & Exports Statistics | Northern Ireland Statistics and Research Agency (nisra.gov.uk). Ceir rhagor o ddeunyddiau yn Broad Economy Sales and Exports Statistics | Northern Ireland Statistics and Research Agency (nisra.gov.uk).

mesuriad allforion Gogledd Iwerddon y tu hwnt i'r ystadegau cyfredol ar y sector gweithgynhyrchu.[146]

24. Mae'r NIETS yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd drwy Ymholiad Busnes Blynyddol Gogledd Iwerddon (NIABI). Mae'r NIABI yn darparu data ar gyfer Cyfrifon Cenedlaethol y DU, Arolwg Busnes Blynyddol y DU, ac Ystadegau Busnes Strwythurol Ewrop.

25. Mae'r NIABI, a'r NIETS felly, yn seiliedig ar arolwg a anfonir at bob busnes canolig a mawr (50 neu fwy o gyflogeion), pob busnes bach aml-safle (20-49 cyflogai), pob busnes gweithgynhyrchu sydd â mwy na phum cyflogai, a sampl o fusnesau bach eraill. Ar y cyfan, mae'r sampl yn cynrychioli oddeutu 20% o'r boblogaeth fusnes gymwys bob blwyddyn (oddeutu 11,000 o 49,000 o fusnesau yn 2011) sydd wedi'u cofrestru yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau.

26. Mae'r gyfradd ymateb yn uchel fel arfer, gydag oddeutu 70% o'r busnesau wedi'u samplu yn ymateb i'r arolwg. Wedi dweud hynny, roedd datganiad 2021 ar allforion Gogledd Iwerddon ar gyfer 2019 yn adlewyrchu effaith COVID-19, gyda chyfradd ymateb is o 52% ac roedd data 2021, a gyhoeddwyd mis Rhagfyr 2022, hefyd yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 52%.

27. Yn yr un modd â phob ystadegyn busnes a gafwyd drwy arolwg, defnyddir cyfrifiad a dosraniad wrth gyfrifo canlyniadau NIETS. Yn 2019, oherwydd cyfradd ymateb is, roedd y canlyniadau yn dibynnu ar gyfrifiad yn fwy nag arfer. Gall cyfrifiad a dosraniad ddigwydd pan nad yw busnes wedi ymateb yn y flwyddyn gyfredol ond wedi ymateb i arolwg y flwyddyn flaenorol, neu wedi darparu data cyfanswm trosiant heb ddadansoddiadau o gyrchfannau, yn ogystal ag anghysondebau rhwng cyfanswm gwerthiannau yn ôl cyrchfan a'r trosiant a adroddwyd. Dan amgylchiadau o'r fath, defnyddir data o gyflwyniadau blaenorol o'r un busnes neu ddata o fusnesau cyffelyb i amcangyfrif y data coll neu i gywiro data diffygiol. Dyma rai o'r technegau cyfrifo mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar draws NISRA a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

28. Er y caiff canlyniadau NIETS eu cyhoeddi yn ôl blynyddoedd calendr, dylid nodi bod ymatebwyr yn cael y dewis i ddychwelyd data ar gyfer diwedd eu blwyddyn busnes, sy'n cwmpasu cyfnod efallai nad yw'n dilyn y flwyddyn galendr ei hun. Yn ystod adegau o newid economaidd cyflym (yn ystod dirwasgiad, er enghraifft), gall y cyfnodau adrodd gwahanol achosi peth duedd.

29. Yn ogystal â'r eithriadau a restrwyd ym mharagraff 7 uchod, nid yw'r NIETS yn cynnwys y grŵp Cyllid (adran K SIC) a rhai o'r grwpiau Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota (adran A SIC 01.1, 01.2, 01.3, 01.4 and 01.5).

---

[146] Daw'r wybodaeth ynghylch ystadegau Gogledd Iwerddon yn y sector hwn o Northern Ireland Economic Trade Statistics: Background Information (08 Rhagfyr 2022), BESES Methodology Paper (6 Mawrth 2015), a BESES Quality Report (Medi 2020), ynghyd â'r ffynonellau y cyfeiriwyd atynt yn nhroed nodyn 15. Mae gwybodaeth ynghylch polisïau adolygu a chymharu cyhoeddiadau diweddaraf gyda chanlyniadau cynharach ar gael yn Usage, methods and quality and revisions policy - BESES | Northern Ireland Statistics and Research Agency (nisra.gov.uk).

### *Tabl crynodeb o ddata cenhedloedd y DU*

31. Mae tabl A.1 isod yn rhoi crynodeb o'r data masnach oddi mewn i'r DU sydd ar gael ar gyfer pob cenedl yn y DU, ac eithrio Lloegr nad yw'n cynhyrchu data o'r fath.

**Tabl A.1: Crynodeb o'r data masnach oddi mewn i'r DU sydd ar gael ar gyfer cenhedloedd y DU**

| *Cenedl yn y DU* | *Math o lif masnach* | *Ffynhonnell* | *Cyfnod o amser a gronynnedd* | *Categorïau cyfanredu data sydd ar gael* |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon | Allforion | NIETS | 2011-2021 data blynyddol | • Sector (adrannau ehangaf SIC)<br>• Maint y Busnes<br>• Ardal y Cyngor Dosbarth<br>• Nifer y gwerthwyr a phrynwyr yn ôl cyrchfan<br>• Math o gynnyrch (h.y. nwyddau neu wasanaethau)<br>• Math o gynnyrch a dosbarthiad sector eang (adrannau SIC wedi'u cyfanredu)[1] |
| | Mewnforion | | | |
| Yr Alban | Allforion | ESS | 2002-2019 data blynyddol | • Sector (gwahanol lefelau SIC i lawr i 2 ddigid)<br>• Maint y busnes a chategori sector eang (gweithgynhyrchu, gwasanaethau, arall)[2] |
| | Allforion<br>Mewnforion | QNAS | 1998-Ch3 2022 data chwarterol | • Allforion a mewnforion cyffredinol o weddill y DU |
| Cymru | Allforion | Arolwg Masnach Cymru | 2018-2019 data blynyddol | • Math o gynnyrch<br>• Cyfran y busnesau wedi ymgysylltu â'r llif masnach yn ôl math o gynnyrch<br>• Maint y busnes a chenedl /cyrchfan frodorol y llif masnach yn y DU<br>• Grŵp sector (pum categori SIC wedi'u cyfanredu) a chenedl/cyrchfan y llif masnach yn y DU |
| | Mewnforion | | | |

Nodyn 1: nid yw gwerth yr allforion yn ôl dosbarthiad sector eang (adrannau ehangaf SIC wedi'u cyfanredu) wedi'i adrodd yn uniongyrchol, ond mae modd ei gael o'r data sydd ar gael.
Nodyn 2: data ar gael ar gyfer blynyddoedd 2014-2019 yn unig.

## Tablau Mewnbwn-Allbwn a Chyflenwad-Defnydd

32. Mae tablau mewnbwn-allbwn a chyflenwad-defnydd yn fframweithiau neu fatrigau cyfrifyddu cenedlaethol sy'n dangos sut caiff cynhyrchu domestig a mewnforio

nwyddau a gwasanaethau eu defnyddio gan ddiwydiannau i'w defnyddio'n syth[147] ac aelwydydd i'w defnyddio yn derfynol. Yn yr un modd â'r setiau data masnach a ddisgrifiwyd uchod, ni chaiff tablau cyflenwad-defnydd ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban eu llunio'n rheolaidd ac yn gydlynol. Nodwn yn arbennig fod:

*(a)* Ar ddyddiad yr adroddiad hwn, y tablau cyflenwad-defnydd diweddaraf ar gyfer yr Alban oedd yn 2019 ac ar gyfer Gogledd Iwerddon oedd yn 2018.

*(b)* Roedd cyhoeddiad tabl cyflenwad-defnydd diweddaraf Cymru yn cynnwys y cyfrifon ers 2007.

*(c)* Nid oes unrhyw gyfrifon unigol ar gyfer Lloegr.

*(d)* Mae tablau cyflenwad-defnydd ar gyfer y DU gyfan yn bodoli ar gyfer cyfrifon 2020.

33. Yn debyg i'r setiau data masnach, mae amrywiaeth yn amlder ac amseroldeb y pedair cenedl yn cyfyngu'r gallu i gymharu.

[147] Defnydd yn syth yn cyfeirio at brynu nwyddau a gwasanaethau yn arbennig i'w defnyddio fel mewnbynnau gan gwmnïau wrth gynhyrchu nwyddau neu wasanaethau, er enghraifft, gweithgynhyrchwr modurol yn prynu rwber i gynhyrchu teiars.

E02880697

978-1-5286-3980-4